

Rhif: WG41255



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Chwefror 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80082-835-3

Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu ar gyfer Cydbwyllgorau Corfforedig.
Camau i'w cymryd	Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.
Manylion cyswllt	<p>Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:</p> <p>Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: LGPartnerships@llyw.cymru</p>
Copïau Ychwanegol	Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb o ymatebion hwn a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

ADRAN UN: Cyflwyniad.....	4
Yr ymgynghoriad hwn.....	4
Pwy ymatebodd?.....	5
Ymgysylltu â'r ymgynghoriad.....	5
Y camau nesaf	6
Dull o ddatblygu'r crynodeb o ymatebion.....	6
ADRAN DAU: Dull o ddatblygu'r Rheoliadau	8
ADRAN TRI: Trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgorau Corfforedig.....	18
ADRAN PEDWAR: Materion ariannol, cyllido a chyllidebol	26
ADRAN PUMP: Materion staffio a gweithlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig....	29
ADRAN CHWECH: Y swyddogaethau a gaiff eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.....	33
ADRAN SAITH: Cyd-bwyllgorau Corfforedig a dyletswyddau fel Corff Cyhoeddus .	40
ADRAN WYTH: Gweithredu	41
ADRAN NAW – Dogfennau Ategol	47
ADRAN DEG: Y Gymraeg	49
ADRAN UN AR DDEG: Myfyrdodau terfynol	51
Atodiad A.....	54

ADRAN UN: Cyflwyniad

Yr ymgynghoriad hwn

Ar 12 Hydref 2020, lansiodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ymgynghoriad ar Reoliadau drafft i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddff Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn dros gyfnod o 12 wythnos rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd y ddolen i'r ddogfen ymgynghori at amrywiaeth eang o randdeiliaid, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori (fel y nodir yn yr adran 'Ymgysylltu' isod).

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Rheoliadau a fydd yn sefydlu nifer o Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd y ddogfen ymgynghori yn disgrifio'r ffordd y mae'r model Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynllunio i wneud trefniadau llywodraethu rhanbarthol yn fwy cydlynol, sut y gall helpu i leihau cymhlethdod a dyblygu ymdrechion, a'r ffordd y gall dargedu adnoddau'n rhanbarthol mewn sefyllfaoedd lle byddai cynllunio a chyflawni swyddogaethau ar y raddfa honno'n gwneud synnwyr. Nod y ffordd benodol hon o gymhwyso arbenigaethau a defnyddio adnoddau mewn modd cydweithredol yw helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru, drwy gydlynw prosesau gwneud penderfyniadau rhanbarthol yn well mewn perthynas â nifer o feysydd gwasanaeth hanfodol.

Bydd y Rheoliadau Sefydlu yn creu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig rhanbarthol ledled Cymru, y bydd pob un ohonynt yn arfer swyddogaethau yn ymwneud â chynllunio datblygiadau strategol, cynllunio trafndiaeth ranbarthol a hybu llesiant economaidd eu hardaloedd.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn darparu ar gyfer agweddau craidd y broses o sefydlu a gweithredu'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig, a bwriedir iddynt fod yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau penodol pob ardal. Felly mae'n bwysig cydnabod y gallai manylion y broses weithredu amrywio rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar hynny hefyd.

Ar ôl iddynt gael eu sefydlu, a lle bo'r cynghorau cyfansoddol yn dymuno iddynt wneud hynny, bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn yn gallu arfer swyddogaethau eraill yn y dyfodol. Mae'n bwysig felly bod y Rheoliadau Sefydlu yn darparu'r sylfaen briodol i gefnogi hyn, os ceir cais gan y cynghorau cyfansoddol. Byddai unrhyw gynnydd i drosglwyddo swyddogaethau yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad pellach ac unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol ar yr adeg honno.

Mae'n bwysig nodi, at ddiben y crynodeb hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, er bod pedair cyfres ar wahân o Reoliadau Sefydlu, un ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae cynnwys pob cyfres ar wahân yr un peth i raddau helaeth. Felly rydym yn ymgynghori ar y rheoliadau hynny fel un. Roedd unrhyw gyfeiriad at y Rheoliadau Sefydlu, oni nodwyd yn wahanol, yn cyfeirio at y pedair cyfres ddrafft o reoliadau. Yn yr un modd, roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig, y cyfeiriwyd atynt yn Adran 9 o'r ddogfen ymgynghori ac a oedd yn cydfynd â'r rheoliadau, wedi cael eu drafftio fel dogfennau unigol a oedd yn ymwneud â'r pedair cyfres o Reoliadau Sefydlu.

Ynghyd â'r Rheoliadau Sefydlu ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig bydd rheoliadau ategol a fydd yn berthnasol i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ar y cyfan, gan nodi manylion eu trefniadau llywodraethu a'u trefniadau gweinyddol a'r fframwaith deddfwriaethol y byddant yn gweithredu ynddo. Bydd angen rheoliadau o'r fath er mwyn cefnogi'r gwaith o roi'r Rheoliadau Sefydlu ar waith a byddant yn ffurfio pecyn o ddeddfwriaeth a fydd yn sail i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Cyfeiriodd y papur ymgynghori at y rhain fel 'Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol' a gwnaethom ofyn nifer o gwestiynau amdanynt er mwyn llywio ein gwaith parhaus gyda llywodraeth leol o ran eu cynnwys.

Pwy ymatebodd?

Arweiniodd y broses ymgynghori at 52 o ymatebion ysgrifenedig. Nodir yr ymatebwyr fel a ganlyn:

20 Awdurdod Lleol
4 Asiantaeth y llywodraeth/corff sector cyhoeddus arall
7 Cyngor cymuned a thref
1 Comisiynydd
1 Rheoleiddiwr
12 Corff cynrychioliadol, Corff proffesiynol neu Gymdeithas
1 Trydydd Sector
2 Undeb Llafur
2 Aelod o'r Cyhoedd
2 Arall

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn **Atodiad A**.

Ymgysylltu â'r ymgynghoriad

Yn ogystal â'r papur ymgynghori ffurfiol, cynhaliwyd nifer o ddiwyddiadau ymgysylltu a sesiynau briffio technegol ar adegau priodol cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid a cheisio barn ar fanylion y Rheoliadau i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r digwyddiadau wedi cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- digwyddiadau ar-lein mawr a arweiniwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gyda llywodraeth leol a grwpiau rhanddeiliad ehangach
- digwyddiadau yn canolbwyntio ar faterion cyfansoddiadol a llywodraethu
- digwyddiadau thematig yn canolbwyntio ar y tri maes swyddogaethol sef Datblygu Economaidd, Cynllunio Datblygiadau Strategol a Thrafnidiaeth Strategol
- digwyddiadau gyda chynulleidfaoedd penodol megis undebau llafur a'r trydydd sector.

Mae swyddogion hefyd wedi bod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd lle mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi bod yn eitem ar yr agenda. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cael eu croesawu ac maent wedi helpu i gysoni'r gwaith ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig â blaenoriaethau pwysig eraill Llywodraeth Cymru, megis y trefniadau buddsoddi rhanbarthol newydd.

Y camau nesaf

Mae'r Gweinidog wedi diolch am y gwaith ymgysylltu adeiladol sydd wedi helpu i lywio Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn. Mae Arweinwyr a swyddogion llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi cael eu cynnwys drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynigion Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac mae'r mewnbwn hwn wedi bod yn amhrisiadwy wrth lywio'r gwaith hwn.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle dylid diwygio'r rheoliadau ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am y sylwadau hynny. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ychwanegu gwerth go iawn at y dirwedd ranbarthol yng Nghymru, gyda rheoliadau a chanllawiau yn cynnig y cyfuniad gofynnol o eglurder a hyblygrwydd. Nodir y rhannau lle mae'r rheoliadau'n cael eu diwygio yn y blwch "Ymateb Llywodraeth Cymru" ar ddiwedd pob adran.

Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau ei bod yn ymrwymedig i barhau i weithio gyda CLILC, y cynghorau cyfansoddol a phartneriaid yn dilyn y broses ymgynghori hon er mwyn sicrhau bod gwaith datblygu pellach, a'r broses o roi Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith, yn diwallu anghenion llywodraeth leol a rhanddeiliaid.

Dull o ddatblygu'r crynodeb o ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio cyfleu pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr yn fanwl. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 24 o gwestiynau ar wahân yn ymwneud ag wyth pennawd ar wahân:

- Dull o ddatblygu'r rheoliadau
- Trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Materion ariannol, cyllido a chyllidebol
- Materion staffio a gweithlu
- Y swyddogaethau a gaiff eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Gweithredu
- Dogfennau Ategol

Gofynnodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r Gymraeg hefyd ac, yng nghwestiwn 24, gwahoddwyd ymatebwyr i wneud unrhyw sylwadau eraill ar yr ymgynghoriad. Mae'r crynodeb o ymatebion wedi cael ei osod o dan yr un penawdau â'r rhai uchod. Gan fod rhai o'r cwestiynau o fewn pob pennawd yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn gorgyffwrdd, mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau wedi'i nodi ar ddiwedd pob pennawd.

Dylid nodi bod nifer bach o ymatebwyr wedi achub ar y cyfle i wrthwynebu'r cysyniad o Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn fwy cyffredinol wrth ateb rhai o'r cwestiynau. Rydym wedi cynnwys rhai o'r sylwadau hynny drwy'r ddogfen hon, ond nid yn y dadansoddiad o bob cwestiwn gan ei bod yn bwysig canolbwyntio ar yr ymatebion i'r cwestiynau penodol roeddem yn ymgynghori arnynt. Roedd cwestiwn 24 yn cynnig cyfle i ymatebwyr gynnwys unrhyw sylw arall mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae unrhyw safbwyntiau ehangach mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig mewn egwyddor wedi cael eu crynhoi yn y rhan hon.

Rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig o hyd, ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig dull cyson o ymdrin â chynllunio strategol a chyflawni ar raddfa, pan fo'n synhwyrol gwneud hynny. Nid Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yr unig gyfrwng ar gyfer cydweithrediad llywodraeth leol, ond bydd yn rhoi adnodd newydd pwerus i awdurdodau lleol pan fo'n briodol. Mae'r cynigion yn adeiladu ar drefniadau rhanbarthol llwyddiannus presennol a bydd Arweinwyr Awdurdodau Lleol yn aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan roi atebolrwydd ac arweinyddiaeth leol wrth wraidd y broses benderfynu.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Diben y broses ymgynghori hon oedd casglu barn ar fanylion Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sut y cânt eu sefydlu a phryd. Mae nifer o agweddau ar y Rheoliadau Sefydlu yn cael eu diwygio o ganlyniad i ymatebion a gafwyd, fel y nodir yn yr adran 'Ymateb Llywodraeth Cymru' ar ddiwedd pob cwestiwn isod.

ADRAN DAU: Dull o ddatblygu'r Rheoliadau

Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:

Roedd Cwestiwn 1a yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i fwy neu lai yr un pwerau a dyletswyddau â chynghorau cyfansoddol.

Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr oedd ychydig llai na hanner ohonynt gan awdurdodau lleol neu CLILC. Roedd 33 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, neu'n gefnogol ar y cyfan, gan nodi y byddai hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwaith ac yn sicrhau y gallai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithio'n effeithiol gyda'r cynghorau cyfansoddol. Er enghraifft, nododd CLILC y canlynol: *“bydd rhywfaint o gyffredinedd, cysondeb a chynefindra yn cefnogi'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ac ymgysylltiad a chyfranogiad aelodau a swyddogion rhwng prif gynghorau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig”*.

Dylid nodi bod nifer o'r rhai a oedd yn cytuno â'r dull arfaethedig yn glir nad oedd hyn yn awgrymu eu bod yn cefnogi'r syniad o greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn weddill naill ai'n anghytuno â'r cynnig neu nid oedd ganddynt farn uniongyrchol.

O'r rhai a oedd yn cytuno, gwnaed nifer o bwyntiau ychwanegol:

- Codwyd rhai pryderon na ddylai strwythurau ddyblygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol presennol ar lefel leol neu ranbarthol ac y dylai unrhyw drefniadau fod yn gymesur â rôl y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Achubodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i bwysleisio bod angen prosesau craffu priodol o fewn unrhyw fframwaith a gynigir ac y dylai unrhyw brosesau craffu o'r fath, gan gynnwys craffu ar safonau, geisio defnyddio trefniadau lleol neu weithio gyda'r rhai yn y cynghorau cyfansoddol lle y bo'n bosibl. Teimlwyd bod hyn yn allweddol er mwyn helpu i gadw atebolrwydd democrataidd.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus am y baich ychwanegol o ran costau y gallai Cyd-bwyllgor Corfforedig ei roi ar y cynghorau cyfansoddol a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Tynnodd sawl un sylw penodol at y costau ychwanegol posibl a fyddai ynghlwm wrth y swyddogion gweithredol gorfodol hefyd.
- Pwysigrwyd sicrhau bod strwythur a threfniadau llywodraethu digonol ar waith o'r cam sefydlu er mwyn adlewyrchu'r ffaith y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig yn eu rhinwedd eu hunain.
- Bod unrhyw fodel neu fframwaith a gymhwysir yn gymesur ac yn briodol ar gyfer y swyddogaethau arfaethedig ac nad yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu gor-reoleiddio a'u gorlwytho â dyletswyddau sylweddol sy'n fwy cymwys i gyrrff mwy a llawer mwy cymhleth, megis cynghorau cyfansoddol.
- Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwyd gwaith partneriaeth ehangach ac ymgysylltiad â rhanddeiliad o fewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Gofynnodd rhai am ragor o eglurder o ran rôl rhanddeiliaid ehangach ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gyfeirio at y dull o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel egwyddor arweiniol ar gyfer cyfranogiad.
- Nododd un ymatebydd hefyd, oherwydd y goblygiadau posibl o ran ffurf y gweithlu, ei bod yn hollbwysig bod y gweithlu'n cael ei gynrychioli'n briodol a bod undebau llafur yn cael statws ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd y mwyafrif yn gwneud hynny am eu bod anghytuno â'r cysyniad o Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan eu bod o'r farn y byddent yn dyblygu gwaith; yn ychwanegu biwrocratiaeth ychwanegol a haen arall o lywodraeth; neu'n symud prosesau gwneud penderfyniadau oddi wrth gymunedau lleol. Gwnaed sawl pwynt ychwanegol:

- Gan fod pwerau Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymwneud â Llesiant Economaidd, Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol yn unig, ni fyddant yn cael yr un pwerau a dyletswyddau â chynghorau cyfansoddol, ac ni ddylent gael yr un pwerau a dyletswyddau.
- Bod y rheoliadau yn rhy ragnodol ac y gellid cyflwyno manteision Cyd-bwyllgorau Corfforedig heb greu cyrff newydd gyda'r un pwerau a dyletswyddau â chynghorau cyfansoddol.
- Na ddylid sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig fel haen arall o lywodraeth leol, ond fel dull o ddarparu gwasanaethau ar ran cynghorau cyfansoddol.

Roedd cwestiwn 1b yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael mwy neu lai yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol â chynghorau cyfansoddol, ar yr amod bod hyn yn gymesur. Cafwyd 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr oedd ychydig llai na hanner ohonynt gan awdurdodau lleol neu CLILC. Roedd 29 o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol â chynghorau cyfansoddol ar yr amod eu bod yn gymesur, neu'n gefnogol o hyn ar y cyfan. Nododd rhai ymatebwyr bod yn rhaid ystyried Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r teulu awdurdod lleol, yn hytrach nag endid ar wahân, ac y byddai hyn yn cynorthwyo aelodau a swyddogion sy'n gorfod gweithio ar draws y ddau gorff.

Fel gyda chwestiwn 1a uchod, roedd nifer o'r rhai a oedd yn cytuno â'r dull arfaethedig yn glir nad oedd hyn yn awgrymu eu bod yn cefnogi'r syniad o greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

O'r rhai a oedd yn cytuno â'r dull arfaethedig, roedd gan ymatebwyr bryderon tebyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer 1a o ran y posibilrwydd o ddyblygu gwaith, cost ac ati. Gwnaed sawl pwynt ychwanegol hefyd:

- Pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau gweinyddu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu sefydlu'n briodol a bod adnoddau digonol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr hefyd na ddylai hyn fod yn faich ychwanegol ar gynghorau cyfansoddol, naill ai'n ariannol nac ar y staff neu'r uwch-swyddogion presennol (Prif Weithredwyr, Swyddogion Monitro ac ati).
- Pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau gweinyddol yn gadarn ac yn dryloyw gydag atebolrwydd democrataidd clir i'r cynghorau cyfansoddol drwy brosesau craffu effeithiol, er enghraifft.
- Y posibilrwydd i rai trefniadau presennol gwmpasu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r cynghorau cyfansoddol, er enghraifft pwyllgorau safonau a chodau ymddygiad cynghorau cyfansoddol.
- Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr fod angen cymesuredd, gydag un yn awgrymu y byddai canllawiau pellach yn ddefnyddiol er mwyn deall sut y gellid ymdrin â chymesuredd yn effeithiol.

- Cwestiynodd nifer o ymatebwyr a fyddai cyfundrefn safonau moesegol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Fel gydag 1a, o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd y mwyafrif yn gwneud hynny am eu bod yn anghytuno â'r cysyniad o Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan eu bod o'r farn y byddent yn dyblygu gwaith; yn ychwanegu biwrocratiaeth ychwanegol a haen arall o lywodraeth; neu'n symud prosesau gwneud penderfyniadau i ffwrdd oddi wrth gymunedau lleol. Gwnaed sawl pwynt ychwanegol.

- Y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ond gael y fframwaith gweinyddol a'r trefniadau llywodraethu sy'n angenrheidiol er mwyn arfer swyddogaethau ac y gallai cyfansoddiad enghreifftiol fod yn ddefnyddiol yn yr achos hwn.
- Na fyddai'n bosibl gwneud trefniadau o'r fath yn gymesur â swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig nac osgoi dyblygu trefniadau lleol (er enghraifft, prosesau craffu)
- Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud y Gymraeg yn iaith weinyddol Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Bod angen eglurder pellach o ran y gydberthynas rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chynghorau cyfansoddol, yn enwedig mewn perthynas â chraffu. Nododd Cyngor Sir Gwynedd *“Dylai corff sydd yn arddel pwerau sylweddol o ran polisi a strategaeth a dyrannu cyllid fod yn ddarostyngedig i drosolwg a chraffu a threfniadau archwilio trylwyr ac annibynnol oddi wrth y penderfynwyr.”*

Gofynnodd cwestiwn 1c a oedd yr ymgynghoreion yn cytuno y dylai aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael disgrisiwn priodol o ran manylion trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol. Cafwyd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr oedd 20 ohonynt gan gynghorau cyfansoddol neu CLILC. Ni wnaeth pob ymatebydd ymateb i'r cwestiwn ei hun ond, lle gwnaeth yr ymatebwyr wneud hynny, roedd 27 ohonynt yn cytuno'n fras â'r egwyddor o ddisgrisiwn a hyblygrwydd lleol o ran manylion trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

O'r rhai a oedd yn cytuno, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Bod angen llunio disgrisiwn o fewn fframwaith clir a chyson a phwysigrwydd eglurder o ran ble roedd disgrisiwn lleol yn bosibl. Roedd rhai yn teimlo bod y rheoliadau drafft yn cynnig fframwaith lefel uchel priodol, y gellid ei ddatblygu ymhellach mewn canllawiau statudol er mwyn gallu mabwysiadu trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol yn rhanbarthol yn ôl y gofyn ac fel y cymeradwyir gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r cynghorau cyfansoddol dan sylw. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth nodi bod rhai yn teimlo bod y rheoliadau eisoes yn rhy ragnodol.
- Y byddai hyblygrwydd yn galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes yn bodoli yn y rhanbarthau a chynnig y posibilrwydd i drefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu rhanbarthol presennol (megis y rhai sy'n sail i'r Bargeinion Dinesig a Thwf presennol) gael eu trawsnewid neu eu trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig.
- Bod angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu llywio a'u hysgogi gan lywodraeth leol drwy Aelodau Etholedig er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus.

- Y byddai hyblygrwydd yn galluogi cyrff eraill i gael eu cynnwys yn briodol yn y broses benderfynu a'r gwaith o graffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Byddai hyn yn sicrhau bod trefniadau atebolrwydd a goruchwyllo priodol ar waith o'r cychwyn cyntaf.
- Os yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig am gael disgrisiwn priodol ar fanylion y trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol, rhaid bod gan ddinasyddion hawl i gwyno gyda'r ymyriadau priodol lle bo angen.
- Bod angen cydnabyddiaeth y bydd yn heriol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu'r trefniadau angenrheidiol, yn enwedig o ystyried yr argyfwng COVID-19 presennol.

Fel gydag 1a ac 1b uchod, o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig ar gyfer disgrisiwn priodol o ran manylion trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol, roedd y mwyafrif yn gwneud hynny am eu bod yn anghytuno â'r cysyniad o Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd rhai sylwadau ychwanegol wedi'u cynnwys.

- Y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gyson ledled Cymru o fewn paramedrau'r rheoliadau a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Y dylai unrhyw ddisgrisiwn sydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei gyfarwyddo gan y cynghorau cyfansoddiadol yn unig ac nid gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun.
- Ei bod yn anodd dweud a oedd lefel briodol o ddisgrisiwn yn cael ei darparu heb weld Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol drafft. Byddai hyn yn cwmpasu, er enghraifft, gyfansoddiad pwyllgorau craffu a phrosesau craffu effeithiol a Chodau ymddygiad.

Cwestiwn Dau yr Ymgynghoriad

Roedd cwstiwn 2 yn ceisio barn ar yr ardaloedd y byddai pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu cwmpasu, fel y cytunwyd ag Arweinwyr llywodraeth leol.

Cafwyd 40 o ymatebion i'r cwstiwn hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno mai'r ardaloedd a gynigiwyd gan Arweinwyr llywodraeth leol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig oedd fwyaf priodol i adlewyrchu'r swyddogaethau a roddir i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nododd nifer mai'r swyddogaethau a nodwyd oedd y rhai mwyaf priodol i'w cyflawni yn y rhanbarthau, gan gredu y byddai manteision clir a diamwys i weithredu ar raddfa ar yr amod y byddai'r rhain yn cyd-fynd yn glir ag atebolrwydd democrataidd lleol.

Fodd bynnag, codwyd pryderon am nad yw ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cyfateb i olion troed gwella addysg, lechyd a Gofal Cymdeithasol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Nodwyd hefyd y byddai angen ystyried yr effaith ar y Gymraeg.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r syniad o gysoni ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ag olion troed y Bargeinion Dinesig a Thwf presennol. Nododd un ymatebydd, "*Dyma'r achos ar gyfer de-ddwyrain Cymru lle mae cynllunio strategol eisoes wedi bod yn destun dadl a thrafodaeth a lle mae*

cynnydd wedi cael ei wneud ym maes trafniadaeth". Fodd bynnag, roedd rhai eraill o'r farn y gallai cymhwysu'r ôl troed at wella addysg fod yn broblem yn y de-ddwyrain lle mae trefniadau gwahanol ar waith ar hyn o bryd.

- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhan o ardaloedd tri Chyd-bwyllgor Corfforedig. Roedd pryderon y gallai hyn beri heriau o ran capasiti i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac y gallai hefyd arwain at anawsterau posibl wrth geisio adlewyrchu tri Chynllun Datblygu Strategol gwahanol o fewn Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod ei hun.
- Nododd ychydig o ymatebwyr fod angen gweithdrefnau cadarn er mwyn ymdrin â materion trawsffiniol â Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, a gyda Lloegr yn benodol.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch diffyg cysylltedd ag ardaloedd lleol ac y dylid "ystyried caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddatblygu mewn ardaloedd daearyddol bach lle mae anghenion yn cael eu nodi ac yn wahanol i ardaloedd daearyddol eraill". Roedd un ymatebydd yn teimlo bod yr ardaloedd yn ne Cymru yn cwmpasu gormod o awdurdodau ac y gallai hyn felly arwain at broblemau biwrocraataidd. Awgrymwyd hefyd y dylai Caerdydd a Chasnewydd ffurfio dwy ardal.
- Nodwyd y byddai eglurder pellach o ran cydberthynas Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydliadau'r GIG yn cael ei groesawu. Gofynnodd un ymatebydd y cwestiynau canlynol: "*A fydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhan o'r gofynion rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant? A ellid creu Cyd-bwyllgor Corfforedig i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn neu a allent gael eu cwmpasu gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y cynigir ar hyn o bryd?"*
- Roedd y prif wrthwynebiadau i'r cynlluniau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai sefyllfa'r Gymraeg yn dirywio o ganlyniad. Roedd un ymatebydd yn teimlo bod y cynigion Cyd-bwyllgor Corfforedig yn amhriodol a phwysleisiodd stereoteipiau daearyddol a'r rhaniad rhwng y De a'r Gogledd. Mynegodd bryderon hefyd y byddai'r rhaniadau rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain a'r De-orllewin yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith petai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn defnyddio'r Saesneg fel eu hiaith fewnol.
- Bydd angen i'r ffordd y caiff y Rheoliadau eu llunio gydbwyso hyblygrwydd yn y dyfodol â diogelu rheolaeth ddemocrataidd.
- Bydd y cynigion ar gyfer ardaloedd yn arwain at amrywiad sylweddol o ran maint y boblogaeth, ond bydd gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig yr un gofynion, pwerau a dyletswyddau sefydliadol craidd.

Cwestiwn Tri yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 3 yn holi am y dull o ddatblygu'r rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn benodol, roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y dull o ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu a'r Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol. Nododd nifer o ymatebwyr i ddwy ran cwestiwn 3 nad oedd y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol ar gael ar hyn o bryd a'u bod felly'n teimlo ei bod yn anodd mynegi barn gytbwys a hyddysg ar y dull cyffredinol. Croesawodd llawer o ymatebwyr y cyfle i

weld y rhain ac ymgysylltu mewn perthynas â nhw cyn gynted â phosibl, yn enwedig o ystyried yr amserlen ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Yn ogystal, roedd rhai yn teimlo ei bod yn bwysig bod y gwaith ymgysylltu hwn yn cynnwys cyrff eraill y gall fod angen iddynt gynghori ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Gofynnodd cwestiwn 3a a oedd ymgynghoreion yn cytuno â'r dull o ddatblygu'r rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y'u hamlinellir yn yr ymgynghoriad hwn. Cafwyd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gydag 20 gan ymatebwyr llywodraeth leol.

O'r rhai a fynegodd farn glir, roedd 15 yn cytuno, neu'n cytuno mewn egwyddor, â'r dull ac roedd 6 yn anghytuno. Ni wnaeth nifer ymateb i'r cwestiwn ond gwnaethant achub ar y cyfle i wrthwynebu'r egwyddor o Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn fwy cyffredinol.

O'r rhai a oedd yn cytuno, gwnaed nifer o bwyntiau ychwanegol:

- Bod angen i reoliadau fod yn glir ac yn gryno lle y bo'n bosibl.
- Croesawodd rhai y lefel o ymgynghori a gafwyd ar y cynigion o ran Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyd yma, ond dylid nodi bod rhai o'r farn na fu digon. Croesawodd llawer y cyfle i ymgysylltu ymhellach mewn perthynas â datblygiad y rheoliadau.
- Pwysleisiodd un ymateb fod angen cynnwys undebau llafur mewn penderfyniadau ynghylch darpariaethau ar gyfer staffio a'r gweithlu a phwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr yn cael yr un buddion a mesurau amddiffyn â'r rhai mewn cynghorau cyfansoddol.
- Bod yr amserlen ar gyfer sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn afrealistig o ystyried effaith COVID-19.
- Cytuno y bydd angen i'r Rheoliadau Sefydlu nodi'r darpariaethau penodol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, cyllid, staffio a swyddogaethau pob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Fodd bynnag, bydd angen fframwaith deddfwriaethol cyffredinol y bydd disgwyl i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig weithredu yn unol ag ef, a dylai'r gofynion cyffredin hyn, yn fwy priodol, gael eu nodi mewn Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol ar wahân.
- Er bod gwahanu'r dull rhwng y ddwy set o reoliadau yn bragmataidd, mae hyn wedi gwneud cyd-destun cyffredinol Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn fwy aneglur. Teimlwyd y gallai gwaith cynllunio manwl fod yn anodd heb Reoliadau Cymhwyso Cyffredinol ac y gallai fod yn syniad da symud dyddiad y cyfarfod cyntaf er mwyn caniatáu mwy o amser.

O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r dull, gwnaed y sylwadau canlynol:

- Bod y model a'r dull yn cynnig gormod o bosibilrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gymryd swyddogaethau oddi wrth y cynghorau cyfansoddol fel cyrff etholedig.
- Gan nad oedd Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol drafft ar gael i gyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori, ni allai rhai ddweud p'un a oedd y dull o ddatblygu'r rheoliadau yn gadarn ai peidio. Yn benodol, cyfeiriwyd at y ffaith bod angen eglurder o ran y dull o ymdrin â phrosesau craffu, archwilio ac atebolrwydd, yn ogystal ag atebolrwydd democrataidd.
- Bod angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddiffinio'n gliriach beth ddylai'r trefniadau llywodraethu fod.

Gwnaed nifer o bwyntiau cyffredinol ychwanegol mewn ymateb i gwestiwn 3a:

- Fel uchod, nododd nifer yr her o ran amser o ystyried etholiadau'r Senedd sydd ar ddod a hefyd yr heriau cyllidebol a gweithredol y mae cynghorau cyfansoddol yn eu hwynebu wrth ymateb i bandemig y Coronafeirws.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig roi trefniadau craffu ar waith, ond yn teimlo y dylai union natur y trefniadau hyn fod yn ôl disgrisiwn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo y dylai'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol sicrhau nad yw unrhyw bwyllgor craffu yn cynnwys aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ei fod yn wleidyddol gytbwys a'i fod yn gallu ceisio cyngor annibynnol priodol.

Gofynnodd cwestiwn 3b i ymgynghoreion nodi unrhyw safbwyntiau a all fod ganddynt ynghylch y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol a allai gefnogi'r gwaith o'u datblygu. Mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf ar Reoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac y bydd gwaith ymgysylltu pellach yn ofynnol mewn perthynas â'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol.

Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol fod wedi cael eu darparu fel rhan o'r ymgynghoriad ac y byddent yn croesawu amserlen ar gyfer cynhyrchu'r rheoliadau hyn.

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol (noder nad ydym wedi cynnwys ymatebion sy'n dyblygu safbwyntiau a roddwyd yn 3a, felly dylid darllen yr ymatebion hyn gyda'i gilydd):

- Bod angen gwaith ymgysylltu parhaus er mwyn deall cynnwys y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol a'r manylion ynddynt o ran, er enghraifft, cyllidebau, is-bwyllgorau, archwilio, gofynion adrodd statudol, craffu, cod ymddygiad, ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned a'u cynnwys, a hyfforddi a datblygu aelodau.
- Dylai gwaith ymgysylltu yn y dyfodol gynnwys y potensial ar gyfer amrywiadau rhanbarthol rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r pwerau a'r swyddogaethau ychwanegol a allai gael eu cynnwys.
- Wrth weithredu mewn capasiti cynllunio strategol mewn Parciau Cenedlaethol, bod yn rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un dibenion Parc Cenedlaethol â'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu hunain. Pan fyddant yn ymgymryd â rolau eraill, dylai dyletswydd adran 62 (2) Deddf yr Amgylchedd (1995) fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Bod angen rhywfaint o eglurder o ran sut y byddai anghydfodau yn cael eu datrys, o fewn y Cyd-bwyllgor Corfforedig a rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r cynghorau cyfansoddol.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen i naill ai'r Rheoliadau Sefydlu neu'r Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol ddarparu ar gyfer aelodau wrth gefn petai aelod yn sâl neu'n absennol er mwyn sicrhau y gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig barhau â'i waith.
- Mewn perthynas â gwahardd aelod o staff Cyd-bwyllgor Corfforedig rhag bod yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn aelod o un o'i gynghorau cyfansoddol neu'n aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, teimlai un

ymatebydd fod achos dros ystyried a ddylid estyn hyn i gynnwys sefydliadau a allai gael eu cyfethol, yn enwedig os oes ganddynt hawliau pleidleisio.

- Cododd nifer o ymatebwyr y mater o ran y dyletswyddau corff cyhoeddus ehangach, megis y rhai o dan Safonau'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Teimlai un ymatebydd y dylid cynnwys darpariaeth benodol i sefydliadau iechyd gael eu cynnwys ym mhenderfyniadau Cyd-bwyllgor Corfforedig, neu i ymgynghori â nhw yn eu cylch, lle gallai penderfyniadau o'r fath effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar iechyd neu fynediad at wasanaethau iechyd.
- Roedd un ymatebydd hefyd yn teimlo y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol gynnwys darpariaethau sy'n galluogi ac yn annog prosesau rhannu gwybodaeth ac arferion rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Dau: 'Dull o ddatblygu'r Rheoliadau'.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau bod cefnogaeth i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i fwy neu lai yr un pwerau a dyletswyddau â chynghorau cyfansoddol; iddynt gael mwy neu lai yr un fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol (cymesur); ac iddynt gael disgrisiwn priodol o ran manylion trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn a byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail hon.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr fod angen i'r fframwaith llywodraethu a'r trefniadau gweinyddol fod yn gymesur a bod angen defnyddio'r trefniadau presennol o fewn llywodraeth leol a pheidio â'u dyblygu. Felly bydd y Rheoliadau Sefydlu yn parhau i gynnig yr hyblygrwydd a'r disgrisiwn lleol y mae galw amdanynt, lle bynnag y bo modd, er mwyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig allu pennu'r cymesuredd angenrheidiol. Rydym hefyd wedi clywed gan nifer o ymatebwyr pa mor bwysig yw sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gallu gweithio ar draws ffiniau, er mwyn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig eraill a gyda chynghorau cyfansoddol neu bartneriaid eraill. Rydym yn cytuno bod hyn yn bwysig a byddwn yn sicrhau bod y rheoliadau yn darparu ar gyfer yr hyblygrwydd hwn.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau bod cefnogaeth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn gael eu strwythuro yn ôl y sail ddaearyddol a gynigiwyd gan Arweinwyr llywodraeth leol – Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain cymru. Bydd y Rheoliadau Sefydlu felly'n cael eu paratoi ar y sail hon. Codwyd rhai pryderon ynghylch y ffaith y byddai rhai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn rhan o fwy nag un Cyd-bwyllgor Corfforedig, ond roedd ymatebwyr hefyd yn derbyn y byddai angen gwneud hynny er mwyn i Barciau Cenedlaethol gadw eu statws Awdurdod Cynllunio Lleol presennol yn y broses cynllunio strategol.

Roedd rhai ymatebwyr am gael sicrwydd o ran y defnydd ehangach o'r model Cyd-bwyllgor Corfforedig, er enghraifft ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol. Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r adran hon, mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig dull cyson o ymdrin â chynllunio strategol a chyflawni ar raddfa, pan fo'n synhwyrol gwneud hynny. Nid Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yr unig gyfrwng ar gyfer cydweithrediad llywodraeth leol, ond bydd yn rhoi adnodd newydd pwerus i awdurdodau lleol pan fo'n briodol. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gaiff eu sefydlu fel rhan o'r Rheoliadau Sefydlu yn canolbwyntio ar dri maes strategol, sef Chynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllunio Datblygiadau Strategol a Llesiant Economaidd. Bydd unrhyw swyddogaethau ychwanegol yn amodol ar ymgynghoriad.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r dull o ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a byddwn yn bwrw ymlaen ar y sail y bydd y Rheoliadau Sefydlu yn pennu darpariaethau craidd yn ymwneud â llywodraethu, cyllid, staffio a swyddogaethau pob Cyd-bwyllgor Corfforedig gyda rheoliadau ategol yn pennu'r fframwaith deddfwriaethol cyffredinol y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn yn gweithredu ynddo. Rydym yn bwriadu parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol ar fanylion y fframwaith deddfwriaethol hwn dros y misoedd nesaf.

Mae llawer o'r pwyntiau a godwyd o dan y cwestiynau hyn yn ymwneud â materion penodol a gaiff eu trafod mewn cwestiynau diweddarach - megis aelodaeth, craffu ac atebolrwydd, a'r dyletswyddau y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ddarostyngedig iddynt fel corff cyhoeddus. Mynegodd ymatebwyr farn ar yr effaith y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ei chael ar y Gymraeg hefyd. Ymdrinnir â'r sylwadau hyn yn ddiweddarach yn y crynodeb o ymatebion.

Yn fwy cyffredinol yn yr adran hon, ac mewn adrannau eraill, cododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch cyflymder y broses o roi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith, yn enwedig o ystyried yr argyfwng COVID-19 presennol. Roedd hyn ynghyd â chais cyffredinol am weld y pecyn ehangach o reoliadau a fydd yn sail i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr amserlen yn heriol a bod ymateb i bandemig COVID-19 yn peri her ychwanegol. Felly cynigir adolygu'r gofyniad yn y rheoliadau ar gyfer y cyfarfod cyntaf, gyda'r bwriad o ymestyn hyn mor hwyr â phosibl. Bydd unrhyw estyniad yn amodol ar gyfyngiadau'r broses o bennu cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Yn ogystal, bwriedir gohirio dyddiad dechrau'r swyddogaethau strategol tan 2022. Bydd hyn yn gohirio'r adeg y bydd swyddogaethau cyflawni'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dechrau i bob pwrpas, ac yn ymestyn yr amser sydd ar gael ar gyfer sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u rhoi ar waith.

ADRAN TRI: Trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 4a yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig o bennu aelodaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys cyfethol aelodau ychwanegol.

Cafwyd 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 24 ohonynt yn gwbl gefnogol neu'n gefnogol ar y cyfan, 10 yn gwrthwynebu'r cynigion a 5 ymateb yn rhoi sylwadau ar agweddau ymarferol ar y cynnig. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid y cynnig hwn.

Roedd y prif sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

- Sut gellid defnyddio aelodau cyfetholedig ac a ddylid disgwyl rhywfaint o gysondeb o ran aelodaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Cafwyd nifer o geisiadau am ganllawiau clir ac, mewn rhai achosion, gais am reoliadau pellach mewn perthynas â chyfethol.
- Rhai pryderon ynghylch rôl a hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o gymharu ag aelodau etholedig Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Roedd nifer bach yn bryderus am y pŵer a fyddai'n cael ei fuddsoddi yn yr Arweinydd neu mewn un blaid wleidyddol a'r effaith ar atebolrwydd democrataidd.
- Cafwyd rhai ceisiadau i drefniadau dirprwyo gael eu caniatáu ar gyfer aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Roedd Cynghorau Cymuned a Thref yn teimlo'n gyffredinol y dylent gael eu cynrychioli ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Nododd un ymatebydd fod angen i'r broses o gael gwared ar aelod cyfetholedig fod yn gliriach.

Yn fwy cyffredinol, gwnaed sylwadau ynghylch sicrhau bod amrywiaeth ymhlith aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gydag un ymatebydd yn awgrymu y dylent fodloni'r prawf cydraddoldeb. Awgrymwyd y dylai'r rhestr lawn o aelodau – gan gynnwys aelodau cyfetholedig – gael ei chyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder.

Gofynnodd cwestiwn 4b am safbwyntiau penodol mewn perthynas â'r rôl a gynigir ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 23 yn gefnogol o'r rôl, 4 yn anghytuno a 3 yn cynnig sylwadau heb fynegi barn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid y cynnig.

Roedd y prif sylwadau o'r ymatebion fel a ganlyn:

- Pryderon ynghylch yr effaith ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a fyddai'n cwmpasu tair o ardaloedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig. Roedd rhai'n teimlo y dylid eithrio hyn felly.
- Roedd un ymatebydd yn bryderus y gallai'r dull hwn roi pleidlais ychwanegol i gyngor cyfansoddiadol i bob pwrpas, lle mae'n rhan fawr o Awdurdod Parc

Cenedlaethol ac yn trafod datblygiadau mawr o dan y Cynllun Datblygu Strategol.

- Nododd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn gefnogol eu bod yn teimlo y dylai aelodaeth Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael ei chyfyngu i faterion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Strategol yn unig. Fodd bynnag, nododd un ymateb y gallent ychwanegu gwerth at eitemau yn ymwneud â llesiant economaidd yn ehangach.
- Roedd y rhai a oedd yn erbyn y cynnig naill ai yn erbyn y syniad o sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig neu'n teimlo na ddylai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael hawliau pleidleisio.

Cwestiwn Pump yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 5a am farn ymatebwyr mewn perthynas â'r dull arfaethedig o 'un bleidlais fesul aelod' a'r hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen.

Cafwyd 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 24 o'r ymatebion yn cytuno neu'n cytuno'n fras â'r cynigion, roedd 7 yn gwrthwynebu a rhoddodd 4 sylwadau yn unig. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid y cynnig.

Roedd y prif sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn fel a ganlyn:

- Llwyddiant trefniadau Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n gweithredu gan ddilyn polisi o un bleidlais fesul aelod.
- Awgrymwyd yn gryf y dylai'r gweithdrefnau gynnwys hyblygrwydd i allu cyflwyno dulliau amgen petai aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn penderfynu bod hynny'n briodol.
- Cydnabuwyd y byddai un bleidlais fesul aelod yn symlach yn achos De-orllewin Cymru a'i bedwar aelod o gymharu â'r sefyllfa ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig mwy.
- Nododd sawl ymateb y dylai gweithdrefnau pleidleisio fod yn safonol. Fodd bynnag, nododd oddeutu'r un nifer y dylai aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig allu mynegi barn ar y dull pleidleisio.
- Mynegwyd pryder ynghylch y posibilrwydd y byddai mwy o bleidleisiau gan aelodau cyfetholedig na swyddogion etholedig.

Gofynnodd cwestiwn 5b a oedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ar gyfer cworwm Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 29 o ymatebion. Roedd 26 yn cytuno, 2 yn anghytuno a rhoddodd 1 ymatebydd sylwadau heb fynegi barn. Roedd mwyafrif clir o blaid y cynnig hwn.

Tynnodd dau ymateb sylw at yr angen am drefniadau dirprwyo, yn enwedig lle roedd aelodaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn fach iawn. Yn yr achos hwnnw, byddai hyd yn oed un absenoldeb yn golygu na fyddai cworwm er mwyn cynnal cyfarfod.

Gofynnodd cwestiwn 5c am safbwyntiau ynghylch y dull arfaethedig o ymdrin â hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig ar Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Cafwyd 31 o ymatebion. Roedd 14 o ymatebion yn gefnogol, nid oedd 12 yn cefnogi'r cynnig a chafwyd 5 sylw nad oeddent yn mynegi barn glir. Roedd mwyafrif bach yn cefnogi'r cynnig hwn.

Y prif sylwadau oedd:

- Roedd mwy na thraean o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai hwn fod yn fater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig unigol.
- Pryderon ynghylch hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig ac a ddylid cyfyngu ar y rhain. Roedd pryder y gallai aelodau cyfetholedig fod â mwy o bleidleisiau na'r aelodau etholedig.
- Roedd un ymateb yn teimlo y dylai'r cworwm fod yn seiliedig ar aelodau cynghorau cyfansoddol yn unig.
- Dylai pwysigrwydd trefniadau goruchwyllo a chraffu fod yn hollbwysig, gan sicrhau y cynhelir atebolrwydd lleol a phrosesau llywodraethu da.

Cwestiwn Chwech yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 6 a ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig allu cyfethol aelodau eraill a/neu benodi pobl i eistedd ar is-bwyllgorau.

Cafwyd 38 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 27 yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, roedd 3 yn erbyn a chafwyd sylwadau gan 8.

Y prif sylwadau a gafwyd oedd:

- Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o benodi aelodau ychwanegol oherwydd yr arbenigedd y gallant ei gynnig, roedd pryderon ynghylch hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig.
- Nododd tua phum ymateb na ddylai aelodau cyfetholedig gael hawliau pleidleisio o gwbl. Roedd ymatebwyr eraill am sicrhau y byddai mwyafrif yr aelodau ar is-bwyllgorau yn swyddogion etholedig.
- Roedd rhai pryderon y gallai rhai Arweinwyr gamddefnyddio hyn i benodi aelodau cyfetholedig er mwyn sicrhau pleidleisiau.

Cwestiwn Saith yr Ymgynghoriad:

Ceisiodd cwestiwn 7a farn ynghylch a oedd ymatebwyr yn cytuno y byddai'r dull o gyfethol aelodau yn cynnig cyfle i ymgysylltu yn ehangach â rhanddeiliaid ar waith Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 7a. Roedd yr holl ymatebion gan gynghorau cyfansoddol o blaid y cynnig i gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid yng ngwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd pob ymatebydd heblaw un yn teimlo y dylid cynnwys rhanddeiliaid gyda'r arbenigedd a'r profiad angenrheidiol wrth gynorthwyo gyda gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chynnig cyngor; roedd yr un ymatebydd a gynigiodd farn amgen yn teimlo y gellid gwneud hyn drwy ymarferion ymgynghori rhagweithiol.

Fodd bynnag, mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr o gynghorau cyfansoddol bryderon hefyd y byddai cyfethol rhanddeiliaid ehangach yn ffurfiol ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran atebolrwydd a

llywodraethu. Roedd barn gref ymhlith ymatebwyr llywodraeth leol mai dim ond y bobl hynny a etholwyd yn ddemocrataidd ddylai fod yn aelodau swyddogol o Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyda hawliau pleidleisio. Felly, roedd y mwyafrif yn credu y dylid cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a strategaethau ac ymgysylltu â nhw wrth wneud penderfyniadau, ond na ddylid eu cyfethol yn swyddogol fel aelodau o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Neu, pe byddai rhanddeiliaid allanol yn cael eu cyfethol, yna dylai hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig fod yn gyfyngedig i'r rhai yr ystyrir eu bod yn aelod o'r teulu llywodraeth leol.

Hefyd, cyfeiriodd nifer o gynghorau cyfansoddol at enghreifftiau lle caiff cyfranogiad rhanddeiliaid ehangach ei groesawu a'i annog yn eu gwaith a lle gallai hyn fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd presennol o fyrddau cynghori a thimau prosiect ar lefel cyngor cyfansoddol ac yn rhanbarthol. Cyfeiriwyd at Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan fod ganddi amrywiaeth o fyrddau cynghori ac is-bwyllgorau, gydag aelodau o bob sector, yn cynnig cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet rhanbarthol. Nodwyd yr un peth ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Busnes sy'n cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Awgrymwyd y gallai rhanddeiliaid a phartneriaid gymryd rhan mewn sesiynau craffu ac mewn grwpiau gorchwyl a gorffen, gan gynnig tystiolaeth a chyngor arbenigol.

Cafwyd safbwyntiau cymysg gan rhanddeiliaid eraill o ran i ba raddau y byddai rhanddeiliaid yn rhan o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr sy'n rhanddeiliaid yn croesawu'r gallu i sefydliadau partner gael eu cyfethol yn aelodau o is-bwyllgorau, neu gael eu cynnwys mewn rhinwedd gynghorol.

Ar y cyfan, roedd sefydliadau rhanddeiliaid yn cefnogi'r hyblygrwydd i alluogi i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfethol aelodau ehangach fel y bo'n briodol yn unol â disgrisiwn lleol, ond er y gellid penderfynu ar fanylion hynny yn lleol, mynegwyd un safbwynt y dylid pennu egwyddor cyfranogiad yn y canllawiau.

Awgrymodd un arall y dylid darparu hyfforddiant penodol i aelodau cyfetholedig a rhanddeiliaid posibl fel y gallent ddeall y fframwaith cyfreithiol mae llywodraeth leol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu ynddo, gan felly ddeall i ba raddau y byddent yn rhan o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig eu hunain.

Nododd un aelod o'r cyhoedd y dylid cymryd gofal i sicrhau priodoldeb unrhyw rhanddeiliaid cyfetholedig er mwyn lleddfu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau.

Yn y pen draw, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai cyfethol aelodau fod yn fater i Gyd-bwyllgorau Corfforedig benderfynu arno yn unol â'r rheoliadau drafft, gyda dau yn awgrymu y dylid ceisio canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Ceisiodd cwestiwn 7b farn ynghylch pa gamau a allai fod eu hangen er mwyn cefnogi aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth iddynt ystyried cyfranogiad rhanddeiliaid priodol yn eu gwaith.

Cafwyd 33 o ymatebion i gwestiwn 7b.

Gwnaethpwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Yr angen am gyfarwyddyd cliriach yn y rheoliadau mewn perthynas â chyfethol.

- Canllawiau cryfach ar gyfranogiad yr holl randdeiliaid a grwpiau poblogaeth, a phrosesau ar gyfer ymgynghori â nhw, (gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) ac opsiynau ar gyfer dulliau craffu effeithiol. Roedd rhai yn teimlo y dylid cael cysylltiadau cliriach â strategaeth cyfranogiad y cyhoedd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Y gallu i feincnodi yn erbyn awdurdodau enghreifftiol sydd eisoes wedi ymgymryd â'r dull hwn o ymdrin â chyfranogiad ac ymgysylltu, hyfforddiant a disgwyliadau clir yn llwyddiannus.
- Datblygiad aelodau: canllawiau clir ar gyfranogiad rhanddeiliaid a'u hymgysylltiad â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Fodd bynnag, nododd rhai y bydd aelodau etholedig eisoes yn gyfarwydd â'r ffyrdd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig mewn perthynas â chydweithredu, cyfranogiad a defnyddio dull integredig.
- Angen sicrhau bod aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael sesiwn sefydlu a hyfforddiant priodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol.
- Cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Cynnwys partneriaid ar gam cynnar, ddim yn ystyried bod cyfranogiad yn elfen 'ychwanegol' neu'n weithgarwch dewisol yn unig. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai strategaethau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ddefnyddiol gyda mynediad i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig at Dimau Ymgysylltu ac adnoddau cysylltiedig cynghorau cyfansoddol neu aelodau cyfetholedig.
- Roedd un awdurdod lleol yn credu y dylai'r rheoliadau ystyried lwfansau ar gyfer aelodau cyfetholedig.
- Dylai cyfleoedd i randdeiliaid ymateb i ymgynghoriadau a chyflwyno sylwadau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu hyrwyddo'n dda. Ymddengys hefyd y byddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael gwefannau i gyhoeddi eu hadroddiadau a'u hymgynghoriadau yn electronig ac i roi rhybudd o gyfarfodydd cyhoeddus.

Pwysleisiodd Comisiynydd y Gymraeg bwysigrwydd sicrhau yr ymgysylltir â chyrrff lleol a chenedlaethol sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr adroddiad ar '*Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru*' gan Archwilio Cymru yn tynnu sylw at broblemau mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i fod yn argymhell y dylai awdurdodau cynllunio lleol wella tryloywder ac atebolrwydd drwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar adegau priodol, cylchdroi cyfarfodydd er mwyn eu cynnal mewn ardaloedd sy'n destun datblygiad arfaethedig, gweddarlledu cyfarfodydd a rhoi cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgor. Er bod y sylwadau yn cyfeirio at awdurdodau cynllunio lleol, mae Archwilio Cymru o'r farn y gallai dulliau tebyg fod yn ddefnyddiol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cwestiwn Wyth yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 8a yn gofyn a ddylai aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac, os felly, a ddylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn cynghorau cyfansoddol.

Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 8a. Roedd 33 ohonynt o blaid y cynnig i aelodau a staff Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn cynghorau cyfansoddol.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Mae'n hanfodol bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol yn ddemocrataidd i'r cyhoedd.
- Er mwyn sicrhau tryloywder o ran cyfranogiad ac atebolrwydd, mae'n briodol glynu wrth god ymddygiad. Mae aelodau eisoes yn ddarostyngedig i god enghreifftiol sy'n gyffredinol gyson ac sydd wedi cael ei fabwysiadu gan bob cyngor cyfansoddol yng Nghymru ac sy'n sail i drefniadau consortia Dinesig a Rhanbarthol. Dylid ystyried protocol ar gyfer Aelodau/swyddogion hefyd.
- Codwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai cael dau god arwain at ddryswch petai un yn cael ei newid.

Ceisiodd cwestiwn 8b farn mewn perthynas â mabwysiadu'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig.

Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr oedd 33 ohonynt o blaid mabwysiadu'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cyfetholedig.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Dylai aelodau cyfetholedig fod yn ddarostyngedig i'r un Cod Ymddygiad a fframwaith moesegol ag aelodau etholedig, ac yr un peth â'r cynghorau cyfansoddol.
- Roedd angen i'r dull *“fod yn gyson â'r safonau uchel sy'n ddisgwyliedig mewn lleoliad llywodraeth leol.”*

Ceisiodd cwestiwn 8c farn ynghylch a ddylai pob aelod cyfetholedig, y rhai sydd â'r hawl i bleidleisio a'r rhai nad oes ganddynt hawl i bleidleisio, fod yn ddarostyngedig i'r un Cod Ymddygiad.

Cafwyd 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 30 o ymatebion o blaid y cynnig i'r Cod fod yn gymwys i bob aelod cyfetholedig.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Nododd sawl ymatebydd y dylai aelodau cyfetholedig nad oes ganddynt hawliau pleidleisio fod yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad hefyd gan y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau aelodau sydd â hawliau pleidleisio drwy eu cyfranogiad mewn trafodaethau pwyllgor.
- Fodd bynnag, nododd un ymatebydd nad yw aelodau cyfetholedig nad oes ganddynt hawliau pleidleisio yn arfer unrhyw bŵer democrataidd i wneud penderfyniadau ac felly ni ddylent fod yn ddarostyngedig i'r safonau ymddygiad cyffredinol a nodir yn y Cod Ymddygiad i aelodau.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Tri: 'Trefniadau llywodraethu a threfniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgorau Corfforedig'.

Gwelwyd lefel uchel o gefnogaeth i'r dull arfaethedig o ymdrin ag aelodaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys mewn perthynas â rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Strategol. Ni chynigir unrhyw newidiadau o ganlyniad. Fodd bynnag, yn dilyn nifer o ymatebion, caiff y Rheoliadau Sefydlu eu diwygio fel y gall aelodau wrth gefn / eilyddion fynychu cyfarfodydd yn lle'r arweinwyr os byddant yn absennol. Roedd awdurdodau lleol yn benodol o'r farn y dylai'r rheoliadau ganiatáu ar gyfer cynnwys aelodau wrth gefn er mwyn i waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig allu parhau petai absenoldeb.

Mewn perthynas â chyfethol, mae'r Rheoliadau Sefydlu yn glir mai'r cynghorau cyfansoddol fydd yn penderfynu pwy fyddant yn eu cyfethol ac ar ba sail. Pennir hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig yn ôl disgrisiwn y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gadw mewn cof na ddylai nifer y pleidleisiau sydd gan aelodau cyfetholedig fod yn fwy na'r nifer sydd gan aelodau o'r cynghorau cyfansoddol. Mae'r ymatebwyr yn cefnogi'r safbwynt hwn yn benodol er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd. Mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr ymrwymiad i ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill a'u cynnwys yng ngwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd y Rheoliadau Sefydlu felly'n darparu ar gyfer cyfethol pobl eraill fel y cynigiwyd.

Mynegodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad lefel uchel o gefnogaeth i'r dull arfaethedig o 'un bleidlais fesul aelod' a'r hyblygrwydd lleol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu gweithdrefnau pleidleisio amgen. O'r 34 o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 24 ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n fras â'r cynigion, roedd 7 yn gwrthwynebu a rhoddodd 4 sylwadau yn unig. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod pobl yn teimlo'n gryf ynghylch y mater hwn a bydd yn sicrhau bod y rheoliadau yn darparu digon o hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gyfrifol am gytuno ar eu trefniadau eu hunain yn hyn o beth.

Bydd canllawiau statudol (a gyflwynir o dan ran 5 o'r Ddeddf) yn cynnig cyngor pellach i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar ystyried cynnwys partneriaid yn ehangach yn eu gwaith, gan gynnwys ar faterion trawsffiniol. Y bwriad, fel yr amlinellir yn adran saith o'r papur ymgynghori, yw i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fel y maent i'w cynghorau cyfansoddol ac felly bydd yn arbennig o bwysig ystyried y ffyrdd o weithio mewn perthynas â chydweithredu, cyfranogiad a defnyddio dull gweithredu integredig. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cyfansoddol baratoi strategaeth gyhoeddi; bydd y ddyletswydd hon yr un mor gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bron yn unfrydol o blaid y cynnig i aelodau a staff Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r hyn a geir mewn cynghorau cyfansoddol. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau drafft. Y bwriad yw y bydd aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig, drwy'r rheoliadau cyffredinol, yn cael eu cynnwys yn y fframwaith moesegol fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. Yn ogystal, os na fydd cod ymddygiad ar waith, neu nes bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn mabwysiadu ei god ei hun, bydd

aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fel y nodir yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008.

Er nad oedd yn unfrydol, teimlai nifer o ymatebwyr y dylai aelodau cyfetholedig (boed ganddynt hawliau pleidleisio neu beidio) fod yn ddarostyngedig i'r un cod ag aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd. Y bwriad yw y bydd y fframwaith moesegol a gymhwysir at aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd yn gymwys i aelodau cyfetholedig.

ADRAN PEDWAR: Materion ariannol, cyllido a chyllidebol

Cwestiwn Naw yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 9a am safbwyntiau ynghylch y dull arfaethedig o bennu gofynion cyllidebol Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ceisiodd cwestiwn 9b safbwyntiau ynghylch yr amserlenni a gynigir ar gyfer pennu'r gofynion cyllidebol a fydd yn daladwy gan gynghorau cyfansoddol, gan gynnwys y darpariaethau a gynigir ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

Cafwyd 35 o ymatebion i gwestiwn 9 i gyd, er y gwnaeth ambell ymatebydd ddewis peidio ag ymateb i ran b y cwestiwn.

Awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebion i **gwestiwn 9a** fod diffyg dealltwriaeth o'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cyllido Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chafwyd ceisiadau am eglurder o ran y trefniadau cyllido. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n bennaf ar bryderon ynghylch sut byddai costau'n cael eu hysgwyddo, yn hytrach na sut byddai gofynion cyllidebol yn cael eu pennu.

Achubodd sawl ymatebydd ar y cyfle i gwestiynu ai dyma'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan awgrymu y bydd yr 'haen ychwanegol' yn lleihau hyblygrwydd cynghorau cyfansoddol i ddarparu gwasanaethau ac yn cyfyngu ar y potensial i wneud arbedion cyllidebol.

Y prif bwyntiau oedd:

- Nododd ymatebion gan nifer o gynghorau cyfansoddol bryderon fod gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig y gallu i osod eu cyllidebau eu hunain heb fod angen iddynt gael eu cefnogi na'u cymeradwyo gan y cynghorau cyfansoddol.
- Mynegodd sawl ymatebydd bryderon ynghylch sut mae disgwyl i gynghorau cyfansoddol ariannu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o'u hadnoddau presennol
- Awgrymodd rhai ymatebion y dylai costau yn y flwyddyn gyntaf gael eu talu gan gyllid grant penodol ac awgrymodd un y dylai unrhyw effaith ariannol barhaus gael ei hadlewyrchu mewn Setliadau Ariannu Awdurdodau Lleol yn y dyfodol.
- Roedd ymateb yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cynnwys pryderon penodol ynghylch y ffaith bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gallu gosod ei gyllideb ei hun a gosod cyfraniadau gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol heb gynnwys yr Awdurdod mewn unrhyw benderfyniadau cysylltiedig.
- Awgrymodd ymateb CLILC y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgynghori â chynghorau cyfansoddol ynghylch y gofyniad cyllidebol a cheisio barn Swyddogion Adran 151.
- Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd cynnydd mewn costau archwilio os oes bwriad, fel yr awgrymir yn y ddogfen ymgynghori, i estyn y gwaith archwilio y tu hwnt i ystyried a oes cyllideb gyfreithlon wedi cael ei phennu.
- Dim ond un ymateb oedd yn gwrthwynebu'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r swm sy'n daladwy yn absenoldeb cytundeb. .

Y prif bwyntiau a wnaed mewn ymateb i **gwestiwn 9b** oedd:

- Pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â'r cynghorau cyfansoddol ynghylch pennu cyllideb.
- Awgrymodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr fod yr amserlen ar gyfer pennu gofyniad cyllidebol erbyn 14 Chwefror yn heriol neu'n anodd. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai 31 Ionawr yn cyd-fynd yn well ag amserlenni presennol awdurdodau lleol.
- Mewn perthynas â'r pum mlynedd diwethaf, awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod yr amserlen ar gyfer pennu gofyniad cyllidebol o fewn deufis i'r cyfarfod cyntaf yn afrealistig, yn heriol neu'n achosi problem.
- Awgrymodd sawl awdurdod y byddai'n afresymol ymdrin â cheisiadau am gyllid gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol.
- Awgrymodd sawl ymatebydd, gan gynnwys CLILC, y dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r flwyddyn gyntaf er mwyn symleiddio'r broses a chael gwared ar unrhyw ansicrwydd cyllidebol ar adeg heriol dros ben.

Cwestiwn Deg yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 10 yn benodol a oedd ymatebwyr yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â chynghorau cyfansoddol o ran arferion cyfrifyddu ac y dylai manylion am y ffordd y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rheoli ei arferion cyfrifyddu gael eu cynnwys yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol.

Cafwyd 36 o ymatebion i gyd, yr oedd pob un ohonynt yn cytuno â'r cynigion ac yn gwbl gefnogol ohonynt.

- Serch hynny, wrth gefnogi'r gofyniad, nododd un ymatebydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chadw cofnodion cyfrifyddu a pharatoi/archwilio cyfrifon ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan nodi na fyddai costau paratoi cyfrifon cynghorau cyfansoddol yn lleihau.
- Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig y dylai fod yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fodloni'r un arferion cyfrifyddu â chynghorau cyfansoddol er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd a thryloywder mewn perthynas â gwasanaethau a gaiff eu darparu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn unig. Mae hyn hefyd yn bwysig ar gyfer swyddogaethau mae'n eu cyflawni ar yr un pryd â chynghorau cyfansoddol.
- Cytunwyd y byddai'n fwy priodol cynnwys y manylion yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Pedwar: 'Materion ariannol, cyllido a chyllidebol'.

Yn ystod yr ymgynghoriad ehangach ar faterion cyllidebol, awgrymodd adborth y byddai'n fuddiol i broses pennu cyllideb y cynghorau cyfansoddol petai dyddiad pennu'r gyllideb ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig (a gynigiwyd fel 14 Chwefror) yn cael ei newid i ddyddiad cynharach, ac ategwyd hyn gan rai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Teimlwyd y byddai hyn yn rhoi mwy o amser i'r cynghorau cyfansoddol ystyried cyllideb y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu prosesau pennu cyllideb eu hunain. Felly, cynigir diwygio'r Rheoliadau Sefydlu fel bod y dyddiad ar gyfer pennu gofyniad cyllidebol y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cyd-fynd yn well ag amserlenni presennol awdurdodau lleol ac yn sicrhau bod gan gynghorau cyfansoddol ddigon o amser i ystyried cyllideb y Cyd-bwyllgor Corfforedig fel rhan o'r broses o benderfynu ar eu cyllideb eu hunain.

Cydnabyddir bod y gofynion ar gyfer pennu cyllideb yn darparu'r gyllideb ar gyfer cyfnod ariannol 2022/23, a phob cyfnod ariannol yn dilyn hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig y gyllideb sydd ei hangen arno i gyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus, pan fyddant yn dechrau (a drafodir mewn rhan arall o'r ddogfen hon).

Er y gallai fod yn bosibl i'r cynghorau cyfansoddol gytuno ar y cyllidebau angenrheidiol ar gyfer rhoi Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith yng nghyfnod ariannol 2021/22, cydnabyddir y gall hyn fod yn anodd o ystyried y ffaith y byddent eisoes wedi cytuno ar gyllidebau eleni. Fel y nodwyd yn y papur ymgynghori, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi ymrwymo i gefnogi llywodraeth leol i sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn, gan gynnwys cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyda chostau sefydlu yn 2021/22. Byddwn yn parhau i weithio gyda chynghorau cyfansoddol i ystyried sut y gallem gefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ystod y cyfnod gweithredu hwn.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno'n unfrydol y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â chynghorau cyfansoddol mewn perthynas ag arferion cyfrifyddu.

ADRAN PUMP: Materion staffio a gweithlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Cwestiwn Un ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 11 yn ceisio barn am y dull arfaethedig o ymdrin â materion staffio a gweithlu. Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid y dull arfaethedig o ymdrin â materion staffio a gweithlu. Roedd cytundeb cyffredinol fod angen sicrhau bod cyllidebau ac adnoddau digonol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a bod cysondeb ymhlith cynghorau cyfansoddol yn bwysig, er y tynnwyd sylw at nifer o rwystrau yn hyn o beth (gweler isod).

Cytunodd nifer o ymatebwyr y dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gael hyblygrwydd i recriwtio staff, eu rhoi ar fenthg neu secondiad, fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad.

Roedd pwyntiau allweddol eraill yn cynnwys y canlynol:

- Y credir bod disgresiwn a hyblygrwydd yn hanfodol er mwyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig wneud y gorau o ofynion capasiti a gallu staff fel y byddai'r sgiliau a'r profiadau cywir ar waith pan fyddai eu hangen ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Bod cytundebau lefel gwasanaeth neu drefniadau tebyg yn debygol o fod ymhlith y dulliau a ddefnyddir er mwyn rhoi rhai elfennau o staffio a chapasiti i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Ond beth bynnag fo'r model cyflogaeth, cytunwyd ei fod yn hanfodol sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni, gan gynnwys TUPE.
- Cyfeiriwyd at y telerau ac amodau amrywiol ar draws y cynghorau cyfansoddol oherwydd, er eu bod yn debyg yn fras, maent yn amrywio, gan gynnwys mewn perthynas â gwerthuso swyddi a strwythurau cyflog. Felly, dylid ystyried ystyriaethau cyflog cyfartal, a hynny o'r cychwyn cyntaf.
- Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gall fod angen rhywfaint o hyblygrwydd mewn perthynas â thaliadau cydnabyddiaeth os yw'r cyrff hyn am allu denu staff o'r safon angenrheidiol i weithredu ym marchnad y DU ac yn fyd-eang. Awgrymodd rhai y dylai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu telerau ac amodau mwyaf ffafriol ei gynghorau cyfansoddol, gan gydlynu ag agenda gwaith teg Llywodraeth Cymru a lleihau'r risg o oblygiadau o ran cyflog cyfartal.
- Mae angen ystyried darpariaethau pensiwn hefyd (er bod rhai yn teimlo y byddai staff yn cadw eu pensiwn presennol pe bai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhan o'r teulu llywodraeth leol).
- Mynegodd rhai Aelodau bryderon ynghylch sicrwydd swyddi ac roeddent yn awyddus i aelodau gweithlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu diogelu yn yr un modd â'r rhai a gyflogir gan gynghorau cyfansoddol.
- Mynegodd nifer o awdurdodau bryderon ynghylch staff mewn cynghorau cyfansoddol yn ymgymryd â dyletswyddau Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r baich y gallai hyn ei roi ar awdurdodau. Roedd un safbwynt a nodwyd yn credu bod disgwyl i uwch-swyddogion presennol ymgymryd â rolau'r swyddogion gweithredol mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn afrealistig. Yn yr achos hwn, teimlwyd y byddai angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig allu cyflogi a recriwtio staff yn eu rhinwedd eu hunain.

- Mynegwyd pryderon ynghylch cost swyddogion ychwanegol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'r baich posibl ar gapasiti awdurdodau lleol. Nododd safbwynt arall na ddylai lefelau staffio cyffredinol gael eu cynyddu. Yn ogystal, nododd dau ymatebydd eu bod yn cytuno â'r cynigion ar staffio ar yr amod na fyddai'r costau cysylltiedig yn uwch na'r rhai hynny a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau.
- Mae angen ystyried sgiliau iaith lle bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cydweithio ag awdurdodau sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a'r rhai sy'n datblygu eu darpariaeth Gymraeg ymhellach.
- Cafwyd dau ymateb gan undebau llafur. Roedd y ddau ohonynt yn cefnogi'r hyn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar y cyfan, ond roeddent yn pwysleisio bod angen egwyddorion arweiniol cryfach a fyddai'n diogelu'n well rhag y risg o greu gweithlu dwy haen ac yn sicrhau y byddai pob gweithiwr yn cael ei drin yn deg, ac na fyddai unrhyw unigolyn dan anfantais yn sgil sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nododd yr undebau llafur fod angen cynnwys ffordd i undebau allu ymgysylltu'n ffurfiol â Chyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd.

Cwestiwn Deuddeg yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 12 yn ceisio barn mewn perthynas â'r cynigion a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael swyddogion gweithredol statudol, neu allu cael gafael arnynt. Cafwyd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Yn gryno, roedd cytundeb ar y cyfan y dylai fod yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig gael Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro, neu'r gallu i gael gafael ar y swyddogion hyn. Fodd bynnag, roedd anghytundeb o ran sut y dylid llenwi'r rolau hyn, fel yr amlinellir isod. Holodd rhai awdurdodau a oedd angen swydd ar wahân ar gyfer Prif Swyddog Llywodraethu gan eu bod yn teimlo nad oedd dyletswyddau'r rôl yn glir o'r rheoliadau ac y gallai ddyblygu elfennau o rôl y Swyddog Monitro.

Roedd yr anghytundeb mewn perthynas â sut y dylid llenwi rolau'r swyddogion gweithredol yn ymwneud â dau brif faes yn bennaf:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig recriwtio unigolion yn uniongyrchol i'r swyddi hyn yn arwain at gostau diangen, dyblygu gwaith a haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, felly dylai'r cynghorau cyfansoddol ddarparu'r arbenigedd.
- Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig benodi unigolion i'r swyddi hyn ar wahân gan na fyddai swyddogion gweithredol presennol cynghorau cyfansoddol yn gallu ymgymryd â'r rolau ychwanegol ac roeddent yn bryderus ynghylch y syniad y byddai swyddogion yn gwisgo 'dwy het statudol'.

Nodwyd hefyd y gallai trefniadau a strwythurau staffio Bargeinion Dinesig a Thwf presennol ddarparu ar gyfer y swyddi allweddol hyn heb fod angen penodi unigolion ychwanegol.

Roedd yr ymateb gan CLILC yn cynnwys yr arsylwad canlynol: *“Bydd creu cyrff corfforedig newydd yn arwain at gydb berthnasau cymhleth newydd i arweinwyr ac unrhyw swyddogion proffesiynol a gyflogir gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig neu a benodir iddynt, gan olygu y byddai angen iddynt reoli eu rolau ‘deuol’ rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'u hawdurdod lleol eu hunain. Bydd angen i'r broses o leoli neu*

gyflogi staff sydd â rolau statudol tebyg neu gyfrifoldebau proffesiynol penodol (ym maes llesiant economaidd, cynllunio a thrafnidiaeth) mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig, lle mae dyletswyddau statudol perthnasol neu swyddogaethau cydredol yn aros o fewn awdurdodau lleol, gael ei rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod cydberthnasau'n adeiladol a bod cylchoedd gwaith a rolau yn glir."

Awgrymodd rhai y dylid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gynghorau cyfansoddol i sicrhau bod digon o gyllid a/neu adnoddau yn cael eu darparu er mwyn ôl-fodloni ymrwymïadau gwaith.

Cwestiwn Tri ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 13 a oedd gan yr ymatebwyr unrhyw safbwyntiau eraill ar y ddarpariaeth ar gyfer materion staffio neu weithlu o fewn y Rheoliadau Sefydlu.

Cafwyd 18 o ymatebion i gwestiwn 13. Roedd y rhan fwyaf o'r safbwyntiau a fynegwyd i gwestiwn 13 eisoes wedi cael eu mynegi o dan gwestiwn 11 neu 12, felly nid ydynt wedi cael eu hailadrodd yma. Mae'r pwyntiau a wneir yma yn ychwanegol at y rhai a fynegwyd yn gynharach.

Nodwyd y gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn opsiwn cyflogaeth deniadol i staff galluog a phrofiadol, ond na ddylai cyflogau fod yn uwch na'r rhai ar gyfer swyddi tebyg mewn cynghorau cyfansoddol sydd ar raddfa sy'n debyg yn fras i'r hyn a geir ar gyfer swyddi tebyg.

Dylid ystyried y gallu i weithlu Cyd-bwyllgor Corfforedig weithio o bell er mwyn helpu gyda hyblygrwydd, bod yn fwy cyfrifol yn amgylcheddol, a galluogi amrywiaeth a chyfle cyfartal gwell drwy ddenu casgliad ehangach o ymgeiswyr o bosibl.

Nododd sylwadau gan undebau llafur fod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig cyfle i sefydlu'r egwyddorion a amlinellir yn y cod ymddygiad Caffael Moesegol yn well ac y dylent gael eu cyfarwyddo i gymryd rhan lawn mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol. Mae undebau llafur yn dymuno cael eu cynrychioli'n ffurfiol ar bob Cyd-bwyllgor Corfforedig, heb hawliau pleidleisio, a chael eu cyfethol ar is-bwyllgorau perthnasol.

Croesawyd y dull Partneriaeth Gymdeithasol a ddisgrifiwyd rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac Undebau Llafur cydnabyddedig, a theimlwyd mai canllawiau fyddai'r ffordd orau o gyflawni hyn.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Pump: 'Materion staffio a gweithlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig'.

Roedd y Rheoliadau Sefydlu drafft yn darparu ar gyfer disgrisiwn lleol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig wneud ei drefniadau ei hun i gael swyddogaethau swyddogion gweithredol statudol, neu fynediad atynt, fel y bo'n briodol. Roedd y rheoliadau hefyd yn darparu disgrisiwn lleol o ran y ffordd y byddai staff yn cael eu penodi, gan gynnwys drwy drefniadau benthyg, secondiadau, cyflogi'n uniongyrchol neu drefniadau eraill a ystyrir yn briodol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Rhagwelir y gallai trefniadau o'r fath newid dros amser wrth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu a dechrau cyflawni ei swyddogaethau strategol allweddol. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i raddau helaeth ac yn croesawu'r hyblygrwydd hwn, ond roedd rhai pryderon lle gallai hyn arwain at rannu adnoddau ac argaeledd capasiti rhydd mewn llywodraeth leol. O ganlyniad i'r adborth, ni fwriedir newid y dull cyffredinol o ymdrin â materion staffio Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y Rheoliadau Sefydlu felly. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chynghorau cyfansoddol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i fonitro'r mater o ran capasiti'r sector yn ei gyfanrwydd.

Hefyd, o ganlyniad i'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cael gwared ar y cynnig i gael Prif Swyddog Llywodraethu ar wahân gan fod cynghorau cyfansoddol a CLILC wedi cynghori y byddai'r dyletswyddau hyn yn cyd-fynd yn well â rôl y Swyddog Monitro. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y darperir ar gyfer rolau'r Swyddogion Gweithredol, a'r swyddogaethau a fynegir, boed drwy'r Rheoliadau Sefydlu neu'r pecyn o reoliadau cyffredinol a fydd yn sail i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn elfen allweddol o'r ffordd y mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yr un mor gymwys i waith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r egwyddorion hyn yn elfen allweddol o'r ffordd y mae sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru, a byddant yr un mor gymwys i waith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag Undebau Llafur ar y broses o ddatblygu elfennau perthnasol o'r canllawiau statudol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a fydd yn cynnwys canllawiau ar gyfranogiad Undebau Llafur ac egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig bod gan weithlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yr un mesurau diogelu â'r rhai a gynigir i weithwyr yn y cynghorau cyfansoddol. Rydym yn cytuno â hyn ac ymdrinnir â'r materion hyn yn y rheoliadau cyffredinol a fydd yn cyd-fynd â rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda CLILC, arweinwyr Adnoddau Dynol o awdurdodau cyfansoddol ac Undebau Llafur i sicrhau bod staff yn cael eu diogelu drwy gydol y broses hon. Bydd Undebau Llafur yn parhau i ymgymryd â'u rôl mewn negodiadau staff ac mewn perthynas â chynrychioli staff.

Bydd y rheoliadau yn darparu bod y darpariaethau mewn cyfraith sy'n ymwneud â staffio, sy'n gymwys i gynghorau cyfansoddol, yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd.

ADRAN CHWECH: Y swyddogaethau a gaiff eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Cwestiwn Pedwar ar Ddeg yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 14a a oedd y ddogfen ymgynghori a'r Rheoliadau Sefydlu yn nodi'n glir pa swyddogaethau y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu harfer o ganlyniad i'r rheoliadau hyn. Lle nad oedd hyn yn glir, gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ynghylch y rhesymau posibl am hyn.

Cafwyd 40 o ymatebion i'r cwestiwn, ond ni wnaeth nifer bach ymateb i'r cwestiwn yn uniongyrchol gan ddewis achub ar y cyfle i gynnwys safbwyntiau cysylltiedig. Eto, gwrthwynebodd nifer bach i gyfansoddyn cyffredinol Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

O'r rhai a ymatebodd, roedd 24 ohonynt yn credu bod y Rheoliadau Sefydlu yn glir neu'n cynnig eglurder ar y cyfan o ran y swyddogaethau y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu harfer. O'r rhai a oedd yn credu bod y rheoliadau yn cynnig eglurder, gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol hefyd:

- Mae angen egluro rhai meysydd allweddol ymhellach:
 - Manylion ynghylch y dyddiadau disgwylidig ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau a'r amserlenni cysylltiedig.
 - Y gydberthynas rhwng y swyddogaethau a chynlluniau cenedlaethol, megis Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
 - Y swyddogaeth Llesiant Economaidd a sut byddai hyn yn gweithio, o ran trefniadau cydredol â'r cynghorau cyfansoddol a datblygu Bargeinion Dinesig a Thwf presennol yn drefniadau Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd.
 - Pwy fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â phob un o'r swyddogaethau – y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a/neu'r cynghorau cyfansoddol.
 - Roedd rhai yn teimlo y byddai angen egluro'r swyddogaethau ymhellach dros amser ac wrth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu sefydlu.
- Pwysigrwydd ymgynghori ymhellach pe bai Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael unrhyw swyddogaethau ychwanegol, gan gynnwys y swyddogaeth Gwella Addysg.
- Y dylai unrhyw benderfyniad i ehangu swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig adlewyrchu gwaith gwerthuso a chraffu effeithiol ar y cyfrifoldebau swyddogaethol cychwynnol.
- Pwysigrwydd sicrhau bod capasiti yn y system i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig allu gwneud gwahaniaeth a chyflawni ei swyddogaethau.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn fanylach yr effaith y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ei chael ar gyrff eraill Llywodraeth Cymru, er enghraifft Trafnidiaeth Cymru. Hefyd bod angen eglurder pellach o ran y gydberthynas â chyrff eraill, megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

O'r rhai a deimlai nad oedd digon o eglurder, neu'r rhai na wnaethant gyflwyno sylwadau ar y mater yn uniongyrchol, gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd angen eglurder o ran pa swyddogaethau eraill/swyddogaethau yn y dyfodol y gallai Cyd-bwyllgor fod yn gyfrifol amdanynt, os o gwbl.
- Pryder y byddai trosglwyddo swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig yn erydu democratiaeth leol ac yn rhoi baich ychwanegol o ran costau ar gynghorau cyfansoddol.
- Bod yr amserlen ar gyfer cyflawni swyddogaethau yn heriol ac y dylid ystyried gohirio'r dyddiad pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau tan fis Mai 2022.
- Roedd rhai yn teimlo na ellid pennu cwmplas y swyddogaethau eto a bod angen cryn dipyn o eglurder ychwanegol, er y dylid nodi nad oedd safbwynt clir o ran beth yn union sydd ei angen i ddarparu'r eglurder hwn.

Gofynnodd cwestiwn 14b a oedd angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddweud mwy am drefniadau cydredol ac, os felly, beth arall sydd ei angen, neu a ddylid gadael hynny i'w benderfynu'n lleol.

Cafwyd 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda rhai yn cytuno bod trefniadau cydredol ac eglurder yn hyn o beth yn bwysig. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn yn uniongyrchol, roedd 16 yn credu nad oedd angen i'r Rheoliadau Sefydlu ddweud mwy am drefniadau cydredol. Roedd y mwyafrif o'r rhain o'r farn bod yn well gadael materion o'r fath i ddisgresiwn lleol ac i'r cynghorau cyfansoddol a/neu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benderfynu arnynt. Fodd bynnag, gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol fel rhan o'r ymatebion hyn hefyd.

- Bod angen i'r cysylltiad rhwng y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn gliriach gydag eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau mewn gwirionedd.
- Gellid cynnwys unrhyw eglurder pellach yn y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol neu mewn canllawiau ac y dylid datblygu'r ddau mewn cydweithrediad â chynghorau cyfansoddol.
- Byddai penderfynu ar y mater yn lleol yn sicrhau bod cymaint o hyblygrwydd â phosibl i addasu i anghenion lleol neu ymateb i newidiadau a allai ddeillio o etholiadau llywodraeth leol.
- Er y dylid gadael trefniadau cydredol i'w benderfynu'n lleol, gallai proses ynghylch sut i ddod i gytundeb a datrys anghydfodau fod yn ddefnyddiol.

Mae'n werth nodi bod chwe ymatebydd o'r farn bod angen eglurder pellach yn y Rheoliadau Sefydlu a/neu mewn unrhyw ganllawiau statudol, gan gynnwys drwy ddarparu cynllun dirprwyo enghreifftiol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo bod diffyg eglurder o ran sut y byddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhyngweithio â chynghorau cyfansoddol yn fwy cyffredinol hefyd. Ceisiodd un ymatebydd sicrwydd na fyddai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhwystro nac yn lleihau pwerau cynghorau cyfansoddol lle byddai trefniadau cydredol. Roedd rhai yn teimlo bod angen egluro'r swyddogaethau ymhellach cyn y gellid ystyried trefniadau cydredol. Yn benodol, roedd nifer bach yn teimlo bod angen eglurder pellach o ran gweithrediad cydredol y swyddogaeth Llesiant Economaidd a'r gydberthynas â'r Bargeinion Dinesig a Thwf.

Gofynnodd cwestiwn 14c a oedd ymatebwyr yn meddwl bod unrhyw swyddogaethau y gallai fod yn briodol eu hychwanegu at gylch gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig yn y dyfodol.

Cafwyd 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 24 o ymatebwyr yn glir na ddylid ychwanegu unrhyw swyddogaethau pellach neu na allent awgrymu unrhyw swyddogaethau ar y cam hwn (mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gwrthwynebu Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn egwyddor. Roedd rhai yn teimlo bod y mater hwn yn rhywbeth i'r cyngorau cyfansoddol ei ystyried. Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn teimlo na ddylid ystyried unrhyw swyddogaethau ychwanegol nes bod y cynigion presennol wedi cael eu gwerthuso ac y dylai unrhyw swyddogaethau o'r fath fod yn destun ymgynghoriad â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, cyngorau cyfansoddol a rhanddeiliaid. Roeddent hefyd yn teimlo y dylai hwn fod yn fater ar gyfer disgrisiwn lleol. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurder pellach mewn perthynas â'r swyddogaeth Gwella Addysg a sut gallai hyn weithio petai'n cael ei throsglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforedig, gyda'r consortia a'r trefniadau addysg presennol cyn-16 ac ôl-16.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr swyddogaethau ychwanegol posibl, gan gynnwys:

- Dosrannu'r gwaith o echdynnu mwynau a chyfrifoldeb dros ddiwygio'r Datganiadau Technegol Rhanbarthol.
- Amddiffynfeydd llifogydd, ynni adnewyddadwy, systemau bwyd a datgarboneiddio.
- Mynd i'r afael â'r agenda sgiliau o ran diffyg sgiliau a chyflogadwyedd.
- Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid ystyried a fyddai modd cynnwys cyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Busnes Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r swyddogaethau maent yn eu harfer, fel rhan o gylch gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ymatebion a awgrymodd swyddogaethau ychwanegol, pwysleisiwyd bod angen gwerthuso'r swyddogaethau arfaethedig presennol cyn trosglwyddo swyddogaethau pellach i Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Cwestiwn Pymtheg yr Ymgynghoriad:

A ydych o'r farn y dylai'r rheoliadau ddarparu i unrhyw beth fod yn benderfyniad a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na chael ei ddirprwyo i is-bwyllgor? Os felly, beth?

Archwiliodd **cwestiwn 15** natur swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig ymhellach, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'i brosesau llywodraethu. Roedd y cwestiwn yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r rheoliadau ddarparu i unrhyw beth fod yn benderfyniad a gedwir yn ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn hytrach na chael ei ddirprwyo i is-bwyllgor. Awgrymodd yr ymgynghoriad y gallai penderfyniad o'r fath i wahardd dirprwyo gynnwys cytuno ar gyllidebau; mabwysiadu neu gymeradwyo cynlluniau neu strategaethau (gan gynnwys y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol); ac ystyried unrhyw adroddiadau sy'n ofynnol o dan statud.

Cafwyd 31 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 20 ohonynt yn cytuno â'r cynnig yn y ddogfen ymgynghori y dylid cyfyngu ar ddirprwyo yn y meysydd uchod.

Yn ogystal, nododd yr ymatebwyr hyn y canlynol:

- Dylai'r gwaith o gymeradwyo cyfrifon er mwyn eu harchwilio gael ei gadw'n ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig greu cynlluniau dirprwyo a ddylai gydymffurfio ag Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Er mwyn cadw uniondeb, ni ddylid dirprwyo'r gwaith o greu cynlluniau o'r fath.
- Dylai'r cynghorau cyfansoddol gadarnhau'r cynlluniau'n derfynol.
- Byddai canllawiau pellach yn ddefnyddiol i ddeall cwmpas, cylch gwaith a threfniadau llywodraethu is-bwyllgorau.
- Dylai rheoliadau ddarparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl ar gyfer gwneud penderfyniadau dirprwyo'n lleol.
- Lle mae deddfwriaeth llywodraeth leol gyffredinol arall yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, byddai'n synhwyrol bod materion a gedwir yn ôl i gynghorau cyfansoddol hefyd yn cael eu cadw'n ôl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Dylai penderfyniadau ar benodi uwch-swyddogion gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro, gael eu cadw'n ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Teimlai nifer o ymatebwyr mai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddylai fod yn gyfrifol am bob penderfyniad neu y dylai'r Rheoliadau Sefydlu adael pob mater o'r fath i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei ystyried a pheidio â gwahardd dirprwyo mewn unrhyw ffordd. Roedd rhai yn teimlo y dylai penderfyniadau ar faterion megis y gyllideb fod yn seiliedig ar benderfyniad unfrydol gan aelodau'r cynghorau cyfansoddol.

Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo mai'r cynghorau cyfansoddol ddylai wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â llywodraethu, strwythur, materion cyllidebol a chynlluniau strategol. Teimlai un ymatebydd y dylai cynlluniau dirprwyo fod ar waith o'r dechrau er mwyn pennu pa benderfyniadau y gall is-bwyllgorau eu gwneud.

Cwestiwn Un ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Ceisiodd cwestiwn 16 safbwyntiau ar y dull o drosglwyddo'r gallu i arfer swyddogaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr oedd 19 ohonynt gan gynghorau cyfansoddol neu CLILC.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn ymwneud â'r angen am gyfnod datblygu a throsglwyddo digonol, gydag amserlen realistig, er mwyn trosglwyddo'r gallu i arfer swyddogaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol ac yn llyfn.

Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylid ystyried a datblygu'r broses o drosglwyddo'r gallu i arfer swyddogaethau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhanbarthol a/neu'n lleol. Roedd rhai hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig osgoi dyblygu swyddogaethau, gan bwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod adnoddau digonol yn lleol ac yn rhanbarthol, a chadw'r pwysau ar gapasiti mewn cof (yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19). Rhybuddiodd rhai cynghorau cyfansoddol y gallai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a throsglwyddo swyddogaethau iddynt, effeithio ar

gynnydd Bargeinion Twf y cytunwyd arnynt yn ddiweddar, a thanseilio'r cynnydd hwnnw, ar ôl treulio blynyddoedd yn eu datblygu.

Teimlai un ymatebydd y bydd symud o'r strwythurau presennol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn gofyn am arweinyddiaeth weithgar a chryf, ac y dylai newid o'r fath gael ei reoli'n briodol gan reolwyr sydd â'r sgiliau i wneud hyn mor ddiraffferth â phosibl. Gwnaethant awgrymu hefyd y bydd angen eglurder a sicrwydd ar y gweithlu o ran yr hyn y bydd y newid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn ei olygu iddynt.

Yn ogystal, gofynnodd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol am eglurder pellach er mwyn deall goblygiadau o ran staffio ac adnoddau. Yn ur un modd, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y byddai cael rhagor o wybodaeth am ei rôl a'i ymrwymadau yn y dyfodol yn bwysig.

Nododd CLILC ei bod yn debygol y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn bodoli fel 'pwyllgor' am gyfnod er mwyn cytuno ar drefniadau llywodraethu ac ariannol cyn iddynt gael y capasiti sefydliadol y gellir trosglwyddo neu gyflwyno swyddogaethau iddo.

Yn ogystal, nododd nifer o ymatebion y byddai angen cyfnod trosglwyddo ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol o'r dull Cynllun Trafnidiaeth Lleol presennol. Mae angen deall hefyd a fyddai angen i Gynlluniau Datblygu Lleol newid er mwyn adlewyrchu Cynlluniau Datblygu Strategol. Nododd un ymateb nad yw'r swyddogaeth cynllunio datblygiadau strategol yn cael ei chyflawni gan gynghorau cyfansoddol ar hyn o bryd gan nad yw'n bodoli.

Teimlai Grŵp Trafnidiaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru y bydd trosglwyddo swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn llyfn yn hanfodol i'w lwyddiant ac mai hwn yw un o'r cwestiynau pwysicaf yn yr ymgynghoriad. Nododd y Grŵp ei fod yn hyderus y bydd pob cyngor cyfansoddol yn cydweithio mewn modd adeiladol i wneud y broses drosglwyddo mor llyfn â phosibl ac y gwneir hyn drwy gyfathrebu a thrwy waith rheoli prosiect effeithiol. Gwnaethant gytuno y gallai fod yn ymarferol trosglwyddo rhai o'r swyddogaethau ar ôl i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gael ei sefydlu. Fodd bynnag, dylai swyddogaethau deddfwriaethol allweddol y cynghorau cyfansoddol barhau gyda chynghorau cyfranogol ond gyda rhwymedigaeth i faterion gael eu hystyried a'u cyflawni gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd cais am eglurder pellach mewn perthynas â Gwella Addysg hefyd.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Chwech: 'Y swyddogaethau a gaiff eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig'.

Un o'r prif bryderon a fynegwyd yn yr ymgynghoriad oedd yr amserlen heriol ar gyfer rhoi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith ac iddynt ddechrau cyflawni'r swyddogaethau. O ganlyniad i hyn, rydym yn bwriadu gohirio'r dyddiad ar gyfer dechrau swyddogaethau Cyd-bwyllgorau Corfforedig tan 2022. Bydd hyn yn rhoi llawer mwy o amser i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried trefniadau trosglwyddo a rhoi trefniadau llywodraethu perthnasol ar waith cyn y bydd angen iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

O ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau pellach â rhanddeiliaid, mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau yn cael eu hystyried, yn enwedig mewn perthynas â Chynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd gohirio dyddiad dechrau'r swyddogaethau yn golygu y gellir cael cyfnod trosglwyddo hwy a thrafodaethau manylach, gan gynnwys ar lefel ranbarthol. Y bwriad yw y caiff canllawiau pellach eu darparu mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau Cynllunio Datblygiadau Strategol a Chynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r fframweithiau cenedlaethol cysylltiedig.

Nododd rhai ymatebwyr y broblem gyda threfniadau cydredol, hynny yw sut y bydd dyletswyddau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio gyda neu law yn llaw â'r dyletswyddau y bydd y prif gynghorau yn gyfrifol amdanynt o hyd. Cytunodd y rhan fwyaf fod hwn yn fater y dylid penderfynu arno'n lleol, er bod rhai yn credu bod angen rhagor o ganllawiau. Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i ystyried y ffordd orau o gefnogi'r trafodaethau hyn. Ar y cam hwn, ni chynigir newid y Rheoliadau Sefydlu mewn unrhyw ffordd i fynd i'r afael â mater trefniadau cydredol.

Yn ogystal, gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai rhai penderfyniadau, megis y rhai yn ymwneud â mabwysiadu cynlluniau strategol neu gytuno arnynt, gael eu cadw'n ôl i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gwaith o gytuno ar gyllidebau a chyfrifon; mabwysiadu neu gymeradwyo cynlluniau neu strategaethau (gan gynnwys y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol); ystyried unrhyw adroddiadau sy'n ofynnol o dan statud; materion yn ymwneud â'r Cyfansoddiad ac aelodau cyfetholedig; penodi swyddogion Gweithredol; a threfniadau craffu i gyd gael eu cadw'n ôl. O ganlyniad i'r adborth hwn, bydd rheoliadau yn darparu i benderfyniadau o'r fath fod yn faterion a gedwir yn ôl; dim ond y Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn penderfynu arnynt ac ni ellir dirprwyo'r penderfyniadau i is-bwyllgor.

Yn olaf, gofynnodd rhai ymatebwyr gwestiynau ynghylch a fyddai swyddogaethau pellach yn cael eu hychwanegu a sut, gan gynnwys unrhyw gynigion mewn perthynas â Gwella Addysg. Mae'r Ddeddf yn darparu dau lwybr ar gyfer ychwanegu swyddogaethau at gylich gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ar gais prif gynghorau neu ar gais Gweinidogion Cymru. Byddai angen llunio rheoliadau ar gyfer y ddau lwybr a rhaid ymgynghori ar unrhyw reoliadau. Nid oes unrhyw gynigion uniongyrchol gan lywodraeth leol na Llywodraeth Cymru i ychwanegu swyddogaethau pellach ar hyn o bryd. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y

byddai'n briodol rhoi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig arfaethedig presennol ar waith cyn ystyried ychwanegu swyddogaethau pellach.

ADRAN SAITH: Cyd-bwyllgorau Corfforedig a dyletswyddau fel Corff Cyhoeddus

Cwestiwn Dau ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 17 yn ceisio barn am wneud Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyrff cyhoeddus ehangach, fel y disgrifir uchod.

Cafwyd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 29 yn cefnogi, 3 yn erbyn a 4 yn rhoi sylwadau'n unig. Roedd mwyafrif clir o blaid y cynnig hwn.

Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymiadau o ran dyletswyddau y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig iddynt, a dogfennau y dylent orfod eu hystyried. Mae rhai enghreifftiau o ddyletswyddau yn cynnwys:
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
 - Deddf Cydraddoldeb 2010
 - Safonau'r Gymraeg
 - Mesur y Gymraeg 2011
 - Deddf yr Amgylchedd 1995
 - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Adran 6)
 - Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Mae enghreifftiau o ddogfennau eraill yn cynnwys yr *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* a Datganiadau Ardaloedd Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Awgrymwyd y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu cynnwys fel "awdurdod rhestredig" yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 er mwyn sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn gyson â chynghorau cyfansoddol yng Nghymru.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Saith: 'Cyd-bwyllgorau Corfforedig a dyletswyddau fel Corff Cyhoeddus'.

Mae'r ymatebion wedi cadarnhau y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau cyrff cyhoeddus ehangach a nodir yn y papur ymgynghori, ac awgrymodd rhai y dylai'r dyletswyddau hyn fod yn gymwys o'r dechrau'n deg lle bynnag y bo modd. Rydym yn ystyried gwneud y newidiadau angenrheidiol lle y bo'n berthnasol / yn bosibl ar y cyd â'r Rheoliadau Sefydlu. Ar gyfer rhai o'r dyletswyddau, gallai fod yn fwy priodol gwneud y newidiadau angenrheidiol fel rhan o becyn o reoliadau ar y cyd â'r Rheoliadau Sefydlu, bydd rhai eraill yn cael eu rhoi ar waith ar gam diweddarach fel y bo'n briodol neu ar ôl i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu sefydlu. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr ddyletswyddau ychwanegol a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i waith datblygu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fynd rhagddo.

ADRAN WYTH: Gweithredu

Cwestiwn Deunaw yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 18 dri chwestiwn er mwyn ceisio barn am y broses o sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol.

Gofynnodd cwestiwn 18a am farn ynghylch y ffordd orau y gallai Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio'n agos â llywodraeth leol ac eraill ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 38 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Croesawodd nifer o gynghorau cyfansoddol a CLILC y gwaith ymgysylltu a chyfathrebu gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru hyd yn hyn mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Roeddent yn teimlo ei bod yn hollbwysig bod y gwaith ymgysylltu yn parhau er mwyn sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol. Deellir y byddai rhai cynghorau cyfansoddol yn croesawu gwaith ymgysylltu ar lefel ranbarthol er mwyn adlewyrchu cyd-destun lleol a graddfa ac aeddfedrwydd cydberthnasau rhanbarthol presennol.

Cafwyd cais i sicrhau bod y gwaith ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid perthnasol yn parhau cyn ac ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym er mwyn sicrhau bod unrhyw drafferthion 'torri dannedd' yn cael eu datrys yn gynnar yn y broses weithredu.

Er bod llawer yn cydnabod pwysigrwydd deialog barhaus â chynghorau cyfansoddol, teimlai rhai ymatebwyr ei bod yr un mor bwysig parhau i ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid a phartneriaid perthnasol hefyd.

Gwnaeth pum ymateb gydnabod yn benodol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi cynghorau cyfansoddol yn ariannol gyda'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nodwyd bod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi costau parhaus hefyd.

Mynegodd nifer bach o ymatebion bryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu a chyflawni gan nodi eu bod yn teimlo y dylid ystyried hyn ymhellach.

Roedd cwestiwn 18b yn ceisio barn am ba ofynion / elfennau craidd sydd angen bod ar waith er mwyn sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn weithredol ac yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol.

Cafwyd 31 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai o'r gofynion / elfennau craidd a awgrymwyd gan ymatebwyr fel a ganlyn:

- Bydd angen gwneud cryn dipyn o waith paratoi cyn cyfarfod cyntaf disgwylidig y Cyd-bwyllgorau Corfforedig erbyn Medi 2021, a bydd angen gwneud gwaith ymgysylltu, cydgysylltu a chynllunio rhwng Aelodau a swyddogion y cynghorau cyfansoddol, yn ogystal â staff dynodedig i ddarparu cymorth llywodraethu cychwynnol.
- Dylai fod cyfnod trosglwyddo a hyblygrwydd o ran dyddiad y cyfarfod cyntaf.
- Bydd yn bwysig sicrhau bod y set olaf o Reoliadau Sefydlu a Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol ar waith cyn gynted â phosibl.

- Bydd hefyd yn bwysig cael dealltwriaeth a chytundeb a rennir rhwng cynghorau cyfansoddol ym mhob un o'r rhanbarthau.
- Mae angen eglurder pellach o ran rolau a swyddogaethau.
- Bydd angen i drefniadau llywodraethu fod ar waith cyn gynted â phosibl (byddai angen cytundeb gwleidyddol).
- Bydd angen i gyfansoddiad fod ar waith o'r cychwyn cyntaf a bydd angen datblygu rheolau sefydlog, is-bwyllgorau, cynllun dirprwyo, cod ymddygiad a chyllideb.
- Bydd angen canllawiau gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd er mwyn cefnogi gofynion ychwanegol o ran capasiti ac adnoddau.

Roedd cwestiwn 18c yn ceisio safbwyntiau o ran beth sydd angen bod ar waith cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod am y tro cyntaf, ar ddiwrnod ei gyfarfod cyntaf ac ar ôl hynny.

Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod angen i'r mesurau canlynol fod ar waith cyn i Gyd-bwyllgor Corfforedig gyfarfod am y tro cyntaf, ar ddiwrnod ei gyfarfod cyntaf ac ar ôl hynny:

- Ymrwymiad a rennir gan bawb sy'n rhan o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Cytundeb gwleidyddol ar lywodraethu (gweithdrefnau pleidleisio, amlder cyfarfodydd, trefniadau craffu, cytundeb ar amrywiaeth o bolisiâu Cyd-bwyllgor Corfforedig gofynnol – e.e. cydraddoldeb; Adnoddau Dynol; caffael).
- Angen cynnwys gwaith paratoi mewn cynghorau cyfansoddol er mwyn sicrhau bod trefniadau gwneud penderfyniadau ehangach mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyson, fel bod Cabinetau a chynghorau yn cael eu cynnwys yn briodol yng ngwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Cyfnod trosglwyddo i bennu rheolau sefydlog, trefniadau llywodraethu a strwythurau, a chytuno arnynt.
- Penodi staff priodol (p'un a ydynt yn cael eu penodi'n uniongyrchol neu'n cael eu secondio) i roi cyngor proffesiynol a chyfreithiol ac mewn perthynas ag Adnoddau Dynol a materion ariannol/archwilio.
- Cadarnhau cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a chyllidebau hefyd.
- Dull cefnogi, chyfreithiol a gweinyddol, er mwyn sicrhau y gall cyfarfodydd a dyletswyddau fynd rhagddynt yn ddidor.
- Cyfansoddiad ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol a chanllawiau.
- Dealltwriaeth glir o ddyletswyddau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau eraill, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf yr Amgylchedd.

Cwestiwn Pedwar ar Bymtheg yr Ymgynghoriad:

Ceisiodd cwestiwn 19 farn ymatebwyr mewn perthynas â chanllawiau ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd 34 o ymatebion i gwestiwn 19 i gyd, er y gwnaeth rhai ymatebwyr ddewis peidio ag ymateb i ddwy adran y cwestiwn. Dylid nodi hefyd fod barn am ganllawiau wedi'i mynegi'n fwy cyffredinol drwy'r ymatebion a ddarparwyd i gwestiynau ehangach yr ymgynghoriad ac mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y prif bwyntiau isod hefyd.

Gofynnodd cwestiwn 19a i ymatebwyr ystyried a oedd angen canllawiau mewn perthynas â sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd safbwyntiau amrywiol gan ymatebwyr ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd angen canllawiau, ond byddai'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn croesawu rhywfaint o ganllawiau ychwanegol. Teimlwyd bod angen hyn er mwyn diffinio cwmpas Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gliriach fel bod modd rhoi strwythurau ar gyfer trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol ar waith.

Y prif bwyntiau oedd:

- Pwysigrwydd datblygu canllawiau ar y cyd â llywodraeth leol, CLILC ac eraill o fewn terfyn amser diffiniedig y cytunir arno.
- Ni ddylai'r canllawiau fod yn rhagnodol ond dylent roi hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig arfer disgresiwn, o fewn paramedrau bras, er mwyn caniatáu ar gyfer amrywiadau lleol.
- Gallai canllawiau gael eu cefnogi'n ddefnyddiol gan swyddog cyswllt penodol yn Llywodraeth Cymru a gellid eu datblygu a/neu eu trafod ymhellach drwy'r gwaith ymgysylltu parhaus arfaethedig.

Ceisiodd cwestiwn 19b farn benodol am unrhyw feysydd y byddai'n arbennig o ddefnyddiol eu cynnwys mewn canllawiau o'r fath.

Roedd nifer o feysydd penodol lle roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai canllawiau ychwanegol fod yn ddefnyddiol mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r cyfansoddiad, llywodraethu, cyllid a staffio.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai canllawiau gynnig eglurder ychwanegol o ran rôl a chyfrifoldebau Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r gydberthynas â chynghorau cyfansoddol a chyrrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n rhan o Gyd-bwyllgorau Corfforedig, cynghorau cyfansoddol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn deall diben Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Dylai'r canllawiau sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu er mwyn datblygu amcanion a rennir mewn perthynas ag amrywiaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Bod trefniadau llywodraethu a chraffu priodol a chymesur yn ofynnol, gan nodi paramedrau bras y mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig hyblygrwydd yn unol â nhw, yn amodol ar fesurau diogelu priodol, mewn perthynas â goruchwylio, atebolrwydd a thryloywder.

- Dylai prosesau gwneud penderfyniadau ac unrhyw faterion dirprwyo gael eu cwmpasu yn y canllawiau, gan gynnwys is-bwyllgorau, aelodaeth a hawliau pleidleisio.
- Angen i drefniadau cyfrifyddu ac archwilio priodol fod ar waith ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Dylai materion staffio a gweithlu mewn perthynas ag opsiynau recriwtio, telerau ac amodau cyflogaeth, cyfyngiadau gwleidyddol ac atebolrwydd gael eu cynnwys.
- Gallai'r canllawiau ddarparu fframwaith a disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn weithredu gyntaf (gan gynnwys y cyfarfod cyntaf).
- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gael eu cefnogi drwy ganllawiau, gan gynnwys galluogi a diogelu arferion cynghorau cyfansoddol sy'n gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig; sut y bydd dyletswyddau cynghorau i hyrwyddo'r Gymraeg yn cael eu hystyried yng ngweithrediad Cyd-bwyllgorau Corfforedig; a sicrhau bod staff yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gallai canllawiau ddarparu eglurder yn ddefnyddiol o ran gallu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i arfer pwerau llesiant economaidd ar yr un pryd â'r cyngor cyfansoddol.
- Dylid tynnu sylw at gyfrifoldebau Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â chydymffurfio â dyletswyddau statudol eraill, e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diogelu data, rhyddid gwybodaeth ac ati.
- Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael budd o allu cael gafael ar astudiaethau achos a dogfennau templed, er enghraifft cyfansoddiadau, codau ymddygiad, rheolau sefydlog, cynlluniau dirprwyo a dogfennau staffio enghreifftiol. Teimlwyd y byddai hyn yn cefnogi'r broses sefydlu ac yn helpu i gysoni'r dull a ddefnyddir gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Yn ogystal, nododd un ymatebydd y byddai'r hyn y mae'r canllawiau yn ei gwmpasu yn dibynnu ar yr hyn a oedd yn y Rheoliadau Cymhwysio Cyffredinol.

Cwestiwn Ugain yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 20 yn cynnwys cwestiynau mwy cyffredinol am y ffordd y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac unrhyw feysydd blaenoriaeth penodol ar gyfer y cymorth hwnnw. Roedd y cwestiwn hefyd yn ceisio safbwyntiau cyffredinol ynghylch unrhyw beth y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig fod yn ei wneud, neu na ddylai fod yn ei wneud, nad oedd y Rheoliadau Sefydlu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu ar ei gyfer ar hyn o bryd.

Cafwyd 32 o ymatebion i gwestiwn 20 i gyd, er y gwnaeth rhai ymatebwyr ddewis peidio ag ymateb i dair adran y cwestiwn. Pwysleisiodd nifer bach o ymatebwyr fod angen cymryd amser priodol i roi'r model ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn iawn.

O ran **cwestiynau 20a ac 20b**, roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Pwysigrwydd sicrhau bod cyllid digonol ar gael, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf, i gefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn barhaus yn fwy cyffredinol er mwyn sicrhau

nad oedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhoi baich ychwanegol ar y cynghorau cyfansoddol. Achubodd ambell ymatebydd ar y cyfle i gyflwyno achos am gyllid ychwanegol i gynghorau cyfansoddol yn fwy cyffredinol. Croesawodd sawl un ymrwymiad y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i gefnogi costau sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

- Rôl bwysig y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol arfaethedig ac unrhyw ganllawiau i gefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, mewn perthynas â deall cydberthynas swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig â rhai cynghorau cyfansoddol a chefnogi'r disgrisiwn lleol a'r hyblygrwydd sydd yn y model Cyd-bwyllgor Corfforedig. Croesawodd nifer o ymatebwyr y cyfle i barhau i ddatblygu'r rhain ar y cyd â Llywodraeth Cymru, ond pwysleisiwyd bod angen canolbwyntio ar ddatblygu'r dogfennau hyn ac ymgynghori arnynt cyn gynted â phosibl.
- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd deialog barhaus ar lefelau gwleidyddol a gweithredol i gefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Sicrhau bod diben y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddigon clir. Teimlai nifer o ymatebwyr ei bod yn bwysig bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig, cynghorau cyfansoddol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd yn deall beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig, beth y byddant yn ei wneud, sut y cânt eu dwyn i gyfrif a'u cydberthynas gyffredinol â'r cynghorau cyfansoddol.
- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai angen adnoddau a chapasiti ychwanegol, er enghraifft arbenigedd mewn perthynas â rheoli newid, rhwydweithiau cymorth, cyngor a chymorth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (os gofynnir amdanynt). Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr hynny yn teimlo y dylai unrhyw gymorth gael ei ddarparu yng nghyd-destun atebolrwydd democrataidd lleol, a gan barchu hyn.
- Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael budd o allu cael gafael ar ddogfennau templed, er enghraifft cyfansoddiadau enghreifftiol, codau ymddygiad a chontractau gweithlu safonol. Teimlwyd y byddai hyn yn cefnogi'r broses sefydlu ac yn helpu i gysoni'r dull a ddefnyddir gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Gofynnodd ambell ymatebydd am gymorth ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, er enghraifft prosesau gweinyddol mewnol Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn Gymraeg, sicrhau bod staff yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a galluogi a diogelu arferion cynghorau cyfansoddol wrth weithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Nodwyd cyllid, adnoddau, cyfathrebu, canllawiau a chymorth mwy cyffredinol fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer cefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

O ran **cwestiwn 20c**, o'r 23 a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd 8 yn teimlo nad oedd unrhyw beth yr hoffent ei ychwanegu nad oedd y Rheoliadau Sefydlu eisoes yn darparu ar ei gyfer. O'r rhai a fynegodd farn benodol mewn perthynas â'r cwestiwn, y prif bwyntiau oedd:

- Na ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau a gedwir yn ôl i gynghorau cyfansoddol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau nad yw atebolrwydd democrataidd yn dirywio ac nad yw swyddogaethau'n cael eu dyblygu.
- Yr angen i drefniadau craffu effeithiol gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd a phwysigrwydd ymgorffori craffu, yn enwedig i

sicrhau atebolrwydd democrataidd lleol a chysylltedd ag aelodau cynghorau cyfansoddol.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi amser i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu eu hunain cyn ystyried unrhyw swyddogaethau neu ddyletswyddau ychwanegol ac y byddai meysydd sy'n berthnasol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dod i'r amlwg yn naturiol dros amser. Roedd ymatebwyr yn cytuno felly fod angen i'r Rheoliadau Sefydlu gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i ychwanegu swyddogaethau eraill yn ddiweddarach.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Wyth: 'Gweithredu'.

Mae'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at yr amserlen heriol ar gyfer rhoi Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith. Rydym eisoes wedi trafod sut gallwn ymateb i hyn drwy adolygu'r gofyniad ar gyfer dyddiad y cyfarfod cyntaf a gohirio dyddiad dechrau'r swyddogaethau strategol allweddol a gaiff eu harfer gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig tan 2022. Mae'n bwysig nodi bod y cyfarfod cyntaf yn rhan o'r broses o sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, yn hytrach na'r pwynt lle mae'n rhaid i bopeth fod yn ei le. Y nod fyddai i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gwbl weithredol erbyn yr adeg y byddai swyddogaethau'n dechrau yn 2022. Byddai hyn yn estyn y cyfnod ar gyfer rhoi Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith ac yn rhoi blwyddyn gyfan i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried trefniadau trosglwyddo a rhoi trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu perthnasol ar waith. Bydd hyn yn destun trafodaethau pellach ag Arweinwyr llywodraeth leol.

Cynigir llunio canllawiau i gefnogi'r broses o sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Caiff y canllawiau i gefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu llunio ar y cyd â phrif gynghorau, CLILC a phartneriaid allweddol eraill – gan ystyried y pwyntiau a amlinellir yn y crynodeb o ymatebion. Bydd y canllawiau yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ffurfiol yn ddiweddarach eleni hefyd. Mae'n debygol y bydd y canllawiau yn datblygu dros amser wrth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddatblygu ac wrth i'r pecyn cyffredinol o reoliadau a fydd yn sail i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei ddatblygu.

Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda CLILC a phrif gynghorau i gefnogi proses sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gan gynnwys ariannu'r costau sefydlu o bosibl. Bydd y Gweinidog a swyddogion hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda CLILC, prif gynghorau a phartneriaid ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan ymatebwyr drwy'r ymgynghoriad hwn.

ADRAN NAW – Dogfennau Ategol

Cwestiwn Un ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 21a yn benodol a oedd yr ymatebwyr yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau tebygol y rheoliadau (fel y'u mynegir drwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig) a'i dull o ymdrin â nhw.

Cafwyd 27 o ymatebion i gwestiwn 21a. Roedd hollt o ran a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r dull a'r asesiad roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â nhw mewn perthynas ag effeithiau tebygol y rheoliadau, gyda'r mwyafrif yn anghytuno (11 yn cytuno ac 16 yn anghytuno).

Gofynnodd cwestiwn 21b am unrhyw ddata ychwanegol neu amgen er mwyn helpu i lywio'r asesiad terfynol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn well.

Cafwyd 21 o ymatebion i gwestiwn 21b ond, ac eithrio un ymatebydd, ni chyflwynwyd unrhyw ddata ychwanegol neu amgen er mwyn helpu i lywio'r asesiad terfynol yng nghwestiwn 21b.

Nododd nifer o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd digon o amser i allu darparu tystiolaeth amgen. Lle roeddent yn anghytuno â'r dull, achubodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i ailadrodd eu gwrthwynebiadau i'r egwyddor o Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Gwnaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wahodd trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig mewn perthynas â'r costau i eraill.

O'r rhai a roddodd sylwadau ychwanegol, y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr wedi cydnabod y bydd gan y broses o sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig amrywiadau eang o ran costau gan ddisgresiwn lleol.
- Nid oedd llawer o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â chwestiwn 21a yn cytuno y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn arwain at arbed costau o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Nododd sawl un nad yw'r rhagdybiaeth yr eir i gostau cynllunio trafndiaeth a chynllunio datblygiadau strategol ar y cyd, neu yr eir iddynt ar hyn o bryd, yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol wirioneddol gan nad yw'r rhain o reidrwydd ar waith.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y byddai angen cyllid ychwanegol ar gynghorau cyfansoddol yn y lle cyntaf er mwyn cyflawni dyletswyddau Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael effaith ariannol negyddol neu effaith negyddol o ran adnoddau staffio ar gynghorau cyfansoddol.
- Nododd yr Archwilydd Cyffredinol rywfaint o amrywiant yn y dull o fynd i'r afael â'r effaith neu ragdybiaethau mewn perthynas â COVID-19 y dylid ymdrin â nhw.

Yn ogystal â'r pwyntiau allweddol, tynnodd Cymdeithas yr Iaith sylw at y ffaith nad oedd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn nodi bod Asesiad Cymraeg wedi cael ei gynnal a'i fod wedi dod i'r

casgliad na ddisgwylir y bydd sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael effaith negyddol ar ddefnydd o'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Naw: 'Dogfennau Ategol'.

Ac eithrio un ymatebydd, nid oes unrhyw ddata ychwanegol neu amgen er mwyn helpu i lywio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol terfynol wedi cael eu hawgrymu na'u cyflwyno. Nododd sawl un, fel y nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, y bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu i raddau helaeth ar y penderfyniadau a wneir gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cyfeiriodd rhai at y trefniadau gwirfoddol a nodwyd o dan opsiwn 1 yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hefyd, gan gredu y byddai'r costau hyn ond yn digwydd pe byddai'r cynghorau cyfansoddol yn dewis ymrwymo i drefniadau o'r fath. Caiff yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiweddarau i atgyfnerthu'r disgresiwn lleol hwn a'i effaith ar yr amrywiaeth o gostau a ddarperir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chynghorau cyfansoddol a sefydliadau rhanddeiliaid i sicrhau bod effaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael ei chrynhai a'i hystyried mewn cynlluniau yn y dyfodol. Gofynnodd rhai ymatebwyr a fyddai modd darparu copi o'r aseiad o'r effaith ar y Gymraeg. Caiff copi o'r Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg ei gyhoeddi ar dudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru.

ADRAN DEG: Y Gymraeg

Cwestiwn Dau ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Roedd cwestiwn 22a yn ceisio barn am yr effeithiau y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gofynnodd cwestiwn 22b am farn ymatebwyr o ran pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg ac, yn benodol, sut roeddent yn teimlo y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol.

Cafwyd 29 o ymatebion i gwestiwn 22a ac 20 o ymatebion i gwestiwn 22b.

O ran **cwestiynau 22a a 22b gyda'i gilydd**, roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ac yn cytuno y byddai ymgorffori'r safonau yn y ffordd hon yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
- Na ddylid trin y Gymraeg yn wahanol nac yn llai ffafriol.
- Cododd tri ymatebydd y mater o ran y costau i lynu wrth y safonau ac roeddent yn teimlo y dylid darparu cyllid i alluogi hyn hefyd.
- Mynegodd pum ymatebydd bryderon y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod y prif bryder yn ymwneud â ffiniau a sut y gallai Cyd-bwyllgor Corfforedig erydu'r arferion Cymraeg presennol yn y cynghorau cyfansoddol. Er mwyn diogelu rhag hyn, roedd un ymatebydd o'r farn y dylai Cyd-bwyllgor Corfforedig bob amser lynu wrth y cyngor cyfansoddol sydd â'r "arferion gorau" ar hyn o bryd.
- Teimlai un ymatebydd y dylai asesiad effaith gael ei adolygu'n gyson a'i ddiweddarau i sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol sy'n dod i'r amlwg yn cael eu lliniaru'n ddigonol yn ystod proses sefydlu a gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Cwestiwn Tri ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 23 i ymatebwyr esbonio sut, yn eu barn nhw, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd 28 o ymatebion i gwestiwn 23. Gwnaeth sawl un ailadrodd yr un ymatebion â chwestiwn 22, neu dynnu sylw atynt, ac nid ydym wedi ailadrodd y rheini yma. Y prif bwyntiau ychwanegol oedd:

- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir i helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i lynu wrth Safonau'r Gymraeg. Teimlai ymatebwyr y byddai cael

rhestr bendant o reolau a phrosesau yn cynnig eglurhad o ran pa gamau y mae'n rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eu cymryd.

- Mynegwyd pryderon o ran i ba raddau mae pob cyngor cyfansoddol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd, a'r amrywiaeth yn hyn o beth, a sut y gallai hynny effeithio ar Gyd-bwyllgor Corfforedig sy'n cwmpasu nifer o gynghorau.
- Dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.

Mewn ymateb i'r ddau gwestiwn, achubodd dau ymatebydd ar y cyfle i ailadrodd eu gwrthwynebiadau i ddull y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Er enghraifft, mae Cymdeithas yr Iaith yn credu nad oes modd lliniaru effeithiau negyddol y cynnig hwn ac felly'n teimlo mai'r mesur lliniarol gorau fyddai tynnu'r cynigion ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ôl.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Deg 'Y Gymraeg'.

Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg yn yr un modd â'r prif gynghorau cyfansoddol a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill. Cyn y gall corff fod yn ddarostyngedig i'r Safonau, rhaid iddo gael ei restru ym Mesur y Gymraeg 2011 ("y Mesur"). Mae Atodlen 6 o'r Mesur yn rhestru cyrff a chategoriâu o gyrrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Safonau. Rydym wrthi'n ymchwilio i'r broses o wneud hyn.

Unwaith y caiff corff ei ychwanegu at Atodlen 6 o'r Mesur, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan y Mesur gan nodi pa safonau a all fod yn gymwys iddynt. Bydd y Rheoliadau hynny wedyn yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i gyrrff. Mae'r hysbysiad cydymffurfio yn nodi'r dyletswyddau y mae'n rhaid i gorff penodol gydymffurfio â nhw.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau, drwy ei holl bolisïau, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn wahanol nac yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder y gallai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wanhau'r defnydd presennol o'r Gymraeg mewn cynghorau cyfansoddol neu ym mhrosesau ymgysylltu'r cyngor â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canllawiau statudol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn eu cefnogi wrth iddynt ymdrechu i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus. Dylid nodi bod y ffordd y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn darparu ei wasanaethau, gan gynnwys ei ddarpariaeth Gymraeg a'i iaith weinyddol, yn rhywbeth a gaiff ei bennu'n lleol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

ADRAN UN AR DDEG: Myfyrdodau terfynol

Cwestiwn Pedwar ar Hugain yr Ymgynghoriad:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Rhoddodd cwestiwn 24 gyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd y cwestiynau eraill wedi ymdrin â nhw'n benodol.

Cafwyd 17 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (gan gynnwys dau o'r llythyrau eglurhaol) a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yr oedd ymatebwyr yn awyddus i'w codi neu ailadrodd eu safbwynt mewn perthynas â nhw.

Y prif bwyntiau a wnaed oedd:

- Amlinelliad o fanteision posibl cael Cyd-bwyllgor Corfforedig (gan gynnwys lleihau cymhlethdod; a chyfuno capasiti, arbenigedd a sgiliau prin)
- Pwysigrwydd trefniadau craffu a llywodraethu i “sicrhau atebolrwydd democrataidd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y cyrff corfforedig newydd”. Pwyslais ar yr angen i fanylion y trefniadau hyn gael eu pennu'n lleol. Yn benodol, na ddylid disgrifio pwyllgorau archwilio a llywodraethu fel ‘is-bwyllgorau’.
- Cydbwysedd pŵer mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gyda phryder y gall penderfyniadau gael eu gorfodi ac, o ganlyniad, efallai na fyddai budd pennaf cymunedau yn cael ei sicrhau. Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y trefniadau yn cynnwys rhwystrau a gwrthbwysau digonol er mwyn osgoi hyn.
- Pryder ynghylch y ffaith fod sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn yn ‘orfodol’, gan gredu mai llywodraeth leol ddylai benderfynu a ddylid eu sefydlu neu beidio.
- Nid oes angen Cyd-bwyllgorau Corfforedig – byddant yn dyblygu gwaith; yn ychwanegu biwrocratiaeth ychwanegol a haen arall o lywodraeth; ac yn symud prosesau gwneud penderfyniadau oddi wrth gymunedau lleol.
- Diddordeb yn y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol a phryd a sut yr ymgysylltir ar y rhain: *“Mae'n hanfodol bod... pwyntiau ychwanegol yn cael eu datblygu mewn trafodaeth â llywodraeth leol”*.
- Safbwyntiau ynghylch i ba raddau y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig allu benthyca arian.
- Pwysigrwydd darparu ar gyfer sefyllfa lle caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei ddiddymu – *“dylid ystyried goblygiadau diddymu ar y cam hwn”*.
- Pwysigrwydd sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ychwanegu gwerth.
- Dyhead am setliad cyllido aml-flwyddyn ar gyfer llywodraeth leol er mwyn hwyluso gwaith cynllunio tymor hwy gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac, yn fwy cyffredinol, y safbwynt na ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu cyllido *“ar draul awdurdodau lleol sydd eisoes yn brin o arian”*.
- Ailadrodd barn am swyddogion gweithredol, gan gynnwys nodi nad oes angen Prif Swyddog Llywodraethu ar wahân.
- Nodi y bydd angen darparu gwasanaethau'n lleol mewn meysydd megis adfywio a theithio llesol o hyd.
- Diffyg eglurder o ran y gydbertynas rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyrrff partneriaeth presennol.

- Pryder ynghylch yr effaith ar y Gymraeg.
- Pwysigrwydd cynnwys partneriaid yn ehangach yng ngwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig – *“mae cynllunio strategol ar gyfer newid systemau trawsnewidiol er mwyn diwallu anghenion argyfyngau hinsawdd ac amgylcheddol (sy'n effeithio ar gymdeithas ac economïau) yn gofyn am newid systemau cymdeithasol ac economaidd ac mae hyn yn golygu bod angen i deulu'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac eraill fod yn rhan o hyn.”*
- Rhaid rhoi amser i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a chynghorau cyfansoddol wneud hyn yn iawn, yn enwedig yng nghyd-destun COVID-19.
- Pryder bod y cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at 'ddadansoddi cost a budd ac asesu i ba raddau y mae adnoddau wedi cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol' yn awgrymu bod rôl archwilio allanol ehangach na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn archwiliadau llywodraeth leol.

Ymateb y Llywodraeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn perthynas ag Adran Deg: 'Myfyrdodau terfynol'.

Rydym eisoes wedi ymdrin â nifer o'r pwyntiau a wnaed yn yr adran hon o dan y cwestiynau a'r adrannau sy'n ymwneud â'r pynciau hyn (er enghraifft y dull mewn perthynas â swyddogion gweithredol, staffio a threfniadau llywodraethu).

Mae'n werth nodi y bydd llawer o'r materion a godwyd yn y cwestiwn uchod, a thrwy'r ymgynghoriad hwn, yn faterion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig eu hystyried fel rhan o'r disgresiwn a'r prosesau penderfynu lleol y gofynnwyd amdanynt ac y darperir ar eu cyfer yn y Rheoliadau Sefydlu. Byddai hyn yn cynnwys trefniadau staffio, atebolrwydd i'w hawdurdodau cartref, ac aelodau cyfetholedig ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach.

Fel y gwnaethom nodi yn y cyflwyniad i'r adran hon, rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnig dull cyson o ymdrin â chynllunio strategol a chyflawni ar raddfa, pan fo'n synhwyrol gwneud hynny. Mae'r cynigion yn adeiladu ar drefniadau rhanbarthol llwyddiannus presennol a bydd Arweinwyr Awdurdodau Lleol yn aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan roi atebolrwydd ac arweinyddiaeth leol wrth wraidd y broses benderfynu.

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a wnaed yma (ac mewn rhannau eraill) o ran yr amserlen heriol ar gyfer rhoi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith, yn enwedig o ystyried y pwysau sydd ar brif gynghorau yn sgil pandemig COVID-19. Mewn ymateb, rydym yn cynnig cymryd nifer o gamau gweithredu a fydd yn rhoi mwy o amser i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu eu hunain a rhoi'r trefniadau llywodraethu a gweinyddol angenrheidiol ar waith er mwyn gweithredu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn effeithiol yn eu rhanbarthau. Mae hyn yn cynnwys adolygu pryd mae'n rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig gynnal ei gyfarfod cyntaf a gohirio dyddiad dechrau'r swyddogaethau strategol allweddol tan 2022.

Yn olaf, nododd nifer o ymatebwyr yma, a thrwy'r ddogfen, bwysigrwydd trefniadau craffu er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y cyrff corfforedig newydd. Roedd llawer yn teimlo bod craffu yn cynnig y cyswllt hanfodol yn ôl i'r cynghorau cyfansoddol ac aelodau'r cynghorau hynny. Yn ogystal, pwysleisiodd llawer y dylai trefniadau craffu o'r fath fod yn lleol ac y dylid eu datblygu ar y cyd â'r cynghorau cyfansoddol.

Mewn ymateb, cynigir cael gwared ar y gofyniad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu is-bwyllgor trosolwg a chraffu yn y Rheoliadau Sefydlu ac, yn hytrach, y byddai rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ceisio sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi trefniadau craffu priodol ar waith, gan weithio gyda'i gynghorau cyfansoddol. Gallai hyn fod drwy bwyllgorau craffu presennol prif gynghorau neu drwy gyd-bwyllgor craffu, sef yr opsiwn a ffefrir. Yn unol â barn ymatebwyr, byddai'r broses benderfynu leol hon yn caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a phrif gynghorau benderfynu drostynt eu hunain beth sy'n briodol a beth sy'n addas ar gyfer eu hanghenion o ran cael eu dwyn i gyfrif gan eu cynghorau.

Rydym wrthi'n ystyried sut y gellid cyflawni hyn fel rhan o'r pecyn rheoliadau cyffredinol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

Awdurdodau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd)
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Asiantaethau'r llywodraeth / cyrff sector cyhoeddus eraill

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri (cyflwyniad ar y cyd)
Cyfoeth Naturiol Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cynghorau Cymuned a Thref

Cyngor Cymuned Cwmbrân
Cyngor Cymuned Llandrinio ac Arddlîn
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Cymuned Penyffordd
Cyngor Cymuned Llandudoch
Cyngor Cymuned Sain Ffagan
Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn

Comisiynydd

Comisiynydd y Gymraeg

Rheoleiddiwr

Yr Archwilydd Cyffredinol

Cyrff cynrychioliadol, Cyrff proffesiynol neu Gymdeithasau

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cymdeithas yr Iaith Ceredigion
ColegauCymru
Cymdeithas yr Iaith (Rhanbarth Caerfyrddin/Penfro)
Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (Cangen Cymru).
Aelodau o Bwyllgor Môn Unllais yn cynrychioli Cyngor Bro Llanfairpwll (Cymraeg)
Menter Môn
Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
SOLACE Cymru
Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
Grŵp Cyfarwyddwyr Trafnidiaeth Rhanbarthol

Trydydd Sector

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Undebau Llafur

UNSAIN Cymru
Undeb Prifysgolion a Cholegau

Aelodau o'r Cyhoedd

Dau gyflwyniad

Arall

Grŵp Gogledd-orllewin Caerdydd
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Rhondda Cynon Taf